# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYDBWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN**

Dyddiad ac Amser

**4.30 y.h., DYDD MERCHER, 13EG GORFFENNAF, 2016**

Lleoliad

**Ystafell Gyfarfod, Frondeg, Pwllheli, LL53 5RE.**

Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

**BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 5/7/16)

# CYDBWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN

## AELODAETH

**Cynghorwyr Gwynedd**

**Angela Ann Russell**
**W. Gareth Roberts**
**Gruffydd Williams**
**Owain Williams**
**R.H. Wyn Williams**

**Eraill**

**Enwebeion Cynghorau Cymuned Aberdaron, Buan, Botwnnog, Clynnog, Llanbedrog, Llanaelhaearn, Llanengan, Nefyn, Pistyll a Thudweiliog.**

**Enwebeion yr asiantaethau/sefydliadau canlynol**

**Ymddiriedolaeth Genedlaethol,**
**Cyfoeth Naturiol Cymru,**
**Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor,**
**Cyfeillion Llŷn,**
**Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr,**
**Undeb Amaethwyr Cymru,**
**Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn,**
**Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig/CPRW,**
**Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd.**

# R H A G L E N

## 1. CADEIRYDD

I ethol cadeirydd am y flwyddyn 2016/17.

## 2. IS-GADEIRYDD

I ethol is-gadeirydd am y flwyddyn 2016/17.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

## 6. COFNODION — 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2015, fel rhai cywir.

## 7. TIRWEDDAU'R DYFODOL CYMRU — 8 - 9

Cyflwyno adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn.

## 8. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD A MÔN 2011-26 — 10 - 17

Cyflwyno adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn.

## 9. DATBLYGIADAU SOLAR — 18 - 21

Cyflwyno adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn.

## 10. CYNLLUN RHEOLI’R AHNE — 22 - 46

Cyflwyno adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn.

# CYDBWYLLGOR YMGYNGHOROL ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL LLŶN 18/11/15

**Yn bresennol**:
Y Cynghorydd Gruffydd Williams (Cadeirydd)
T. Victor Jones (Cyngor Cymuned Llanbedrog) (Is-gadeirydd)

**Aelodau:** Y Cynghorwyr W. Gareth Roberts a Angela Russell (Cyngor Gwynedd), Emily Bateman (Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd), Noel Davey (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), John Gosling (Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn), Sian Parri (Cyngor Cymuned Tudweiliog), Alun Price (Cyfoeth Naturiol Cymru) a Hedd Rhys (NFU Cymru).

**Swyddogion:** Bleddyn P. Jones (Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn), Elin Wyn Hughes (Swyddog Prosiect AHNE), Wyn Williams (Rheolwr Cefn Gwlad a Mynediad), Alun Fôn Williams (Uwch Swyddog Datblygu Twristiaeth – ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Hefyd yn bresennol:** Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Rheoleiddio)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd R. H. Wyn Williams, Arfon Hughes (Cyngor Tref Nefyn), William I. Hughes (Undeb Amaethwyr Cymru) a John Eric Williams (Cyfeillion Llŷn).

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2015, fel rhai cywir.

## 3. YMWELWYR YN CYFRANNU

Derbyniwyd cyflwyniad gan yr Uwch Swyddog Datblygu Twristiaeth ar gynlluniau posib i dderbyn cyfraniad ariannol gan dwristiaid er mwyn ei fuddsoddi mewn ardal benodol. Nododd bod dau fath o gynllun posib, sef -Cynllun Treth Ymwelwyr a Chynllun Rhodd Ymwelwyr.

Nododd gan nad oedd gorfodaeth i gyfrannu mewn Cynllun Rhodd Ymwelwyr ei fod yn fwy deniadol na'r Cynllun Treth Ymwelwyr. Adroddodd bod 25 cynllun o'r fath yn weithredol yn y Deyrnas Unedig gyda nifer o ffyrdd posib i ymwelwyr gyfrannu megis:

- biliau gwestai,
- biliau bwytai,
- tocynnau meysydd parcio;
- tocynnau atyniadau,
- drwy *i-beacons*.

Nododd bod cynllun peilot rhodd ymwelwyr yn dechrau yn Llanberis mis Rhagfyr 2015 am gyfnod o flwyddyn ac os fyddai'n llwyddiannus bwriedir lledaenu'r cynllun ar draws Gwynedd.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau, ymatebodd yr Uwch Swyddog Datblygu Twristiaeth fel a ganlyn:

- Bod gan gynlluniau o'r math potensial ond bod angen adnodd dynol i gysylltu â chwmnïau ynghyd â chyllideb sylfaenol er mwyn sicrhau llwyddiant;
- Bod rhaid cynnal cynllun peilot oherwydd rheolau cynllun grant LEADER;
- Mai gwirfoddol fyddai'r cyfraniad gydag opsiwn i optio mewn neu allan;
- Byddai cynllun o'r fath yn cynnwys hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig;
- Bod enghreifftiau gwahanol o weinyddu cynlluniau o'r fath megis drwy fenter gymdeithasol, gwirfoddolwyr a.y.y.b;
- Ei fod yn fwy na parod i gysylltu â Menter Môn a oedd yn cynnal y peilot yn Llanberis yng nghyswllt sefydlu cynllun yn yr AHNE.

Diolchwyd i'r Uwch Swyddog Datblygu Twristiaeth am ei gyflwyniad.

## 3. PROSIECTAU DIWEDDAR UNED AHNE LLŶN

Cyflwynodd Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn adroddiad ar waith yr Uned AHNE. Rhoddwyd cyflwyniad ar brosiectau llwyddiannus diweddar a ariannwyd yn rhannol gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Nodwyd bod dros £400,000 o grantiau wedi eu dyrannu i dros 100 o brosiectau ers 2010.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed cynllun tanddaearu gwifrau trydan yn yr AHNE, nododd y Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn bod lluniau/mapiau ar gael gan yr uned.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 4. MATERION CYNLLUNIO

Cyflwynwyd adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yn rhoi diweddariad ar faterion cynllunio perthnasol i ardal Llŷn a'r AHNE.

Nododd y Cadeirydd ei fod yn awyddus i drafod safbwynt y Cydbwyllgor ar ffermydd solar, o ystyried y nifer cynyddol o geisiadau, er mwyn dod i gonsensws os dylid mabwysiadu datganiad ar geisiadau cynllunio o'r math yma neu beidio, fel y gwnaed efo ceisiadau cynllunio am dyrbinau gwynt.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y prif bwyntiau canlynol:

- Bod angen ystyried effaith gronnus ceisiadau o'r math yma ar y dirwedd;
- Ei fod o werth i'r Cydbwyllgor roi sylwadau ar geisiadau cynllunio;
- Gan fod posibilrwydd y byddai'r *feed-in* tariff yn cael ei ddiddymu blwyddyn nesaf efallai na fyddai cymaint o geisiadau cynllunio;
- Bod rhan fwyaf o'r ceisiadau a ganiatawyd eisoes wedi eu sgrinio'n ddigonol;
- Nad oedd yn bosib sgrinio datblygiadau solar yn ystod tymor y Gaeaf;
- Bod angen rhoi cyfyngiad ar faint cynlluniau paneli solar;
- Nad oedd Canllawiau Cynllunio Atodol i warchod yr AHNE o or-ddatblygiadau o'r math yma a ni fyddai rhai mewn lle am gryn amser ar ôl i'r Cyngor fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd 2011-2026;
- Y dylid rhoi trefn mewn lle i allu galw cyfarfod arbennig o'r Cyd-Bwyllgor i roi sylw penodol ar geisiadau cynllunio unigol a fyddai'n niweidio'r AHNE;
- Y dylid edrych ar y sefyllfa yn yr ardaloedd o harddwch eraill;
- Bod Gwasanaeth Archeolegol Gwynedd wedi gwneud asesiad astudiaeth sylfaenol dros Gymru o ran capasiti ar gyfer datblygiadau o'r math yma ac anfonir yr adroddiad i'r Uned AHNE.

Nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn y byddai'n llunio adroddiad cynhwysfawr yng nghyswllt datblygiadau solar i gyfarfod nesaf y Cyd-Bwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) derbyn yr adroddiad;**

**(ii) sefydlu trefn lle gall y Cadeirydd mewn ymgynghoriad a Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn galw cyfarfod arbennig o'r Cyd-Bwyllgor i roi sylw penodol ar geisiadau cynllunio unigol a fyddai'n niweidio'r AHNE;**

**(iii) bod Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yn cyflwyno adroddiad yng nghyswllt datblygiadau solar i gyfarfod nesaf y Cyd-Bwyllgor.**

## 5. CYNLLUN RHEOLI'R AHNE

Cyflwynwyd adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yn rhoi diweddariad ar y gwaith o ddiweddaru ac adolygu Cynllun Rheoli'r AHNE. Tywyswyd yr aelodau trwy Rhan 1 o'r cynllun rheoli oedd yn atodiad i'r adroddiad. Nodwyd yr anelir i ddod a Rhan 2 o'r cynllun diwygiedig gerbron y Cyd-Bwyllgor yn ystod Gwanwyn 2016.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau roi sylwadau, ymatebodd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn i'r sylwadau fel a ganlyn:

- O ran effaith datblygiadau ar y tirlun, byddai cyfeiriad penodol at ddatblygiadau megis tyrbinau gwynt a phaneli solar yn Rhan 2;
- Bod polisïau cenedlaethol ynghyd â Chynllun Datblygu Unedol Gwynedd (CDUG) yn delio â materion cynllunio ond byddai cyfeiriad yn Rhan 2 at dueddiadau a pholisïau newydd oedd yn effeithio ar yr AHNE;
- Bod dynodiad Ardal Gwarchod y Dirwedd yn creu math o fyffer i warchod gosodiad yr AHNE ynghyd a'r golygfeydd i mewn ac allan o'r AHNE. Ychwanegodd bod y CDUG yn rhoi ystyriaeth i'r dynodiad;
- Y byddai pwyslais yn y cynllun ar greu tirlun byw a chynnal cymdeithas. Nodwyd y rhoddir sylw i faterion megis anghenion y gymuned leol, diwydiannau traddodiadol, lles cymunedol a datblygiadau cynaliadwy.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 6. HER GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yn manylu ar drefniadau'r Cyngor yng nghyswllt ymgynghori ar doriadau i wasanaethau. Nodwyd bod dileu'r Uned AHNE wedi ei gynnwys fel toriad posibl. Ychwanegwyd y byddai dileu'r uned yn arbed £39,150 i'r Cyngor.

Nodwyd yr ysgrifennwyd at aelodau'r Cyd-Bwyllgor a phartneriaid gwaith yr Uned AHNE i dynnu sylw at y bygythiad i'r uned. Anogwyd yr aelodau i lenwi holiadur Her Gwynedd a nodwyd bod cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei ymestyn i 30 Tachwedd 2015.

Nododd yr Aelod Cabinet Rheoleiddio yr asesir ymatebion i'r ymgynghoriad ar grynswth y wybodaeth yn hytrach na nifer o unigolion oedd wedi dewis pa bynnag opsiwn. Anogodd yr aelodau i lenwi'r holiadur unai ar-lein neu drwy lenwi'r holiadur papur.

Ychwanegodd bod y toriadau yn cael eu gorfodi ar y Cyngor a byddai goblygiadau i nifer o wasanaethau. Nododd bod oddeutu 65 o'r Cynghorwyr wedi asesu nifer o opsiynau mewn gweithdai cyn i'r Cabinet benderfynu ar y rhestr toriadau sydd yn destun yr ymgynghoriad. Nodwyd y cynhelir gweithdai pellach efo'r holl gynghorwyr yn dechrau 2016 i drafod yr ymatebion cyn i'r Cabinet ystyried y cynigion ac yna byddai'r Cyngor Llawn ar 3 Mawrth 2016 yn penderfynu ar y gyllideb ar gyfer 2015-16.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nododd yr aelodau'r prif bwyntiau canlynol:

- Bod yr holiadur ddim yn bositif;
- Ni ellir cyflwyno cynigion amgen;
- Bod yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yn cefnogi dynodiad yr AHNE a'i werth cenedlaethol;

- Bod yr adolygiad yn nodi y byddai gweinyddiaeth yr AHNE yn parhau i fod yn rhan o'r Cyngor;
- Bod gofyn statudol o ran gwarchod yr ardal o harddwch;
- Bod yr holiadur yn anodd i'w lenwi ac yn rhy gymhleth;
- Mai oddeutu 1,500 oedd wedi llenwi'r holiadur hyd yma a bod hyn yn siomedig o ystyried bod poblogaeth Gwynedd oddeutu 120,000;
- Bod rhaid arbed y swm yn llawn i allu cyflwyno ymateb ar-lein ac felly bod unigolion ddim yn parhau â'r holiadur gan olygu na cheir syniadau da ym mlwch olaf yr holiadur, lle gofynnir am unrhyw sylwadau arall, gan groesdoriad o'r gymuned;
- Y dylid cynnal mwy o drafodaethau efo'r Cynghorau Cymuned a grwpiau perthnasol;
- Bod yr uned yn gweinyddu'r Gronfa Datblygu Gynaliadwy felly beth fyddai'r oblygiadau o ran dyrannu grantiau.

Diolchwyd i'r Aelod Cabinet Rheoleddio am fynychu'r cyfarfod.

Awgrymwyd y dylai'r Cadeirydd anfon llythyr mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn nodi'r angen i gadw'r Uned AHNE er mwyn gwarchod y dynodiad.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) derbyn yr adroddiad;**
**(ii) bod y Cadeirydd yn anfon llythyr mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn nodi'r angen i gadw'r Uned AHNE er mwyn gwarchod y dynodiad.**

**7. ADOLYGIAD O DIRWEDDAU DYNODEDIG CYMRU**

Cyflwynwyd adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yn gosod cyd-destun yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig Cymru. Nodwyd bod yr adroddiad terfynol oedd wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn cynnwys 69 argymhelliad.

Adroddwyd bod Carl Sargeant, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol wedi cyhoeddi datganiad ar 29 Hydref 2015 yn nodi ei fod yn sefydlu gweithgor, dan arweinyddiaeth yr Arglwydd Dafydd Ellis-Thomas i ystyried yr argymhellion gan gyflwyno eu canfyddiadau mewn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Nodwyd y byddai'r Cadeirydd a Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yn mynychu cyfarfod cychwynnol y gweithgor ar yr 20fed o Dachwedd.

Tywyswyd yr aelodau drwy grynodeb o'r adroddiad terfynol gan dynnu sylw at argymhellion penodol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y prif sylwadau canlynol:

- Bod cadw enw'r dynodiadau Parciau Cenedlaethol ac AHNE gyda'r prif ddynodiad i'w adnabod fel Tirweddau Cenedlaethol Cymru i'w gefnogi gan y byddai'n helpu i godi statws yr AHNE;
- Er mwyn i'r Parc Cenedlaethol a'r AHNE fod yn ddynodiadau cyfwerth y byddai rhaid newid deddf a gallai hynny gymryd oddeutu 4 neu 5 mlynedd;
- Bod yr adroddiad yn gefnogol i ddynodiad yr AHNE ac yn rhoi awdurdod ac amlygrwydd iddo;
- Bod sefydlu'r gweithgor yn golygu oediad o ran gweithredu'r argymhellion;
- Bod angen bod yn ofalus o ran colli'r gogwydd Gymraeg.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 4.30 y.h. a daeth i ben am 7.20 y.h.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Gorffennaf 13eg 2016 |
| **TEITL** | Tirweddau'r Dyfodol Cymru |
| **PWRPAS** | Gwybyddu Aelodau |
| **AWDUR** | Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr Wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y sefyllfa ddiweddaraf o ran yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig a gomisiynwyd gan Llywodraeth Cymru.

## 2.0 YR ADOLYGIAD O DIRWEDDAU DYNODEDIG

2.1 Yn 2014 sefydlwyd Panel o 3 i gynnal Adolygiad o Dirweddau Dynodedig Cymru, sef Yr Athro Terry Marsden, Dr Ruth Williams a Mr John Lloyd Jones.

2.2 Roedd Cam 1 o'r Adolygiad yn edrych ar bwrpas y tirluniau dynodedig a manteision/ anfanteision categoreiddio Tirluniau Dynodedig Cymru o dan un math o ddynodiad. Roedd Cam 2 o'r Adolygiad yn ystyried y modd mae'r Parciau Cenedlaethol a'r AHNE yn cael eu rheoli a'u llywodraethu.

2.3 Gwnaed sylwadau ar yr Adolygiad gan AHNE Cymru, Awdurdodau y Parciau Cenedlaethol a nifer o sefydliadau, elusennau, a chyrff cyhoeddus a phreifat eraill (yn cynnwys y Cydbwyllgor hwn). Yn ogystal, cynhaliodd y Panel nifer o gyfarfodydd trafod gydag unigolion a sefydliadau.

## 3.0 ADRODDIAD YR ADOLYGIAD

3.1 Cyflwynwyd Adroddiad Terfynol i Lywodraeth Cymru yn Hydref 2015. Roedd yn Adroddiad swmpus yn cynnwys cyfanswm o 69 o Argymhellion manwl. Roedd rhai o'r argymhellion yn cyfeirio at faterion egwyddorol a gweithredu y gallesid fod wedi eu cynnwys mewn Atodiad.

3.2 Ar ôl derbyn yr Adroddiad Terfynol bu i Lywodraeth Cymru benderfynu sefydlu rhaglen ddatblygu **Tirweddau Dynodedig Cymru**. Pwrpas y rhaglen yma fyddai ystyried yr Adroddiad a materion eraill perthnasol fel Deddf Llesiant Cenhedaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## 4.0 TIRWEDDAU'R DYFODOL CYMRU

4.1 Penodwyd yr Arglwydd Dafydd Ellis-Thomas yn Gadeirydd ar y broses hon a chynhaliwyd cyfarfod cychwynnol gyda rhanddeiliaid amrywiol yng Nghaerdydd yn mis Tachwedd 2015. Yn dilyn hynny sefydlwyd Grŵp Datblygu (swyddogion ac aelodau yn bennaf) a Gweithgor (academyddion a grwpiau arbenigol yn

bennaf). Penderfynwyd edrych ar 4 maes penodol o ran y Tirweddau Dynodedig sef:

- **Gweledigaeth**
- **Llywodraethau/ Rheoli**
- **Adnoddau**
- **Economi**

4.2 Yn dilyn hynny mae proses eithaf manwl o hyfforddiant, datblygu syniadau, trafod opsiynau a phenderfynu ar ddewisiadau wedi ei dilyn.

4.3 Penllanw rhaglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru oedd cyfarfod o Siambr Sialens yng Nghaerdydd ar yr 20fed o Fehefin. Yn y cyfarfod hwn penderfynodd yr holl aelodau o'r Rhaglen Ddatblygu ar Weledigaeth ar gyfer y Tirweddau'r Dyfodol (gweler isod):

***"Cymru fel cenedl yn gwerthfawrogi ei thirluniau am yr hyn y maent yn ei ddarparu i bobol Cymru a mannau eraill. Tirluniau dynodedig Cymru yn cyflenwi oddi mewn, a thu draw, i'w terfynnau er mwyn gwella eu hadnoddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol a darparu buddion lles eang ar gyfer cenhedlaethau'r presennol a rhai'r dyfodol tra yn gwella y rhinweddau sy'n eu gwneud yn unigryw yn ogystal ac arbennig."***

4.4 Hefyd gosodwyd gwahanol fesurau, dan y 4 testun (Yr Weledigaeth, Llywodraethau, Adnoddau a'r Economi) mewn trefn blaenoriaeth o ran gweithredu – Tymor Byr, Canolig a Hir. Cafodd adnoddau digonol i AHNE ei adnabod fel rhan o'r broses hon.

4.5 Y cam nesaf fydd crynhoi holl gasgliadau ac argymhellion y Rhaglen Ddatblygu at ei gilydd gan y Cadeirydd a'u cyflwyno i'r Ysgrifennydd Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, am ystyriaeth bellach.

## 5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Derbyn yr wybodaeth

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Gorffennaf 13eg 2016 |
| **TEITL** | Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-26 |
| **PWRPAS** | Gwybyddu Aelodau am yr Ymchwiliad Cyhoeddus |
| **AWDUR** | Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn |
| **ARGYMHELLIAD** | Penderfynu sut i symud ymlaen hefo sylwadau. |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Môn wedi paratoi Cynllun Datblygu ar y cyd o'r enw Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn. Bydd yn Cynllun hwn yn disodli'r Cynlluniau Datblygu presennol ac bydd yn weithredol hyd at 2026.

1.2 Paratowyd y Cynllun dros gyfnod o rai blynyddoedd gan ddilyn arweiniad a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Llywodraeth Cymru mewn amrywiol ddogfennau. Mae'r Gwasanaeth AHNE wedi cyfrannu at ddatblygu strategaeth y Cynllun ac wedi gwneud sylwadau ar wahanol rannau drafft.

## 2.0 Y CYNLLUN ADNAU

2.1 Yn unol â'r gofynion statudol mae'r Uned Polisi ar y Cyd wedi cynnal cyfnod ymgynghorol o 6 wythnos ar y Cynllun Drafft Adnau. Roedd y cyfnod yn dechrau ar Chwefror 16eg a dod i ben ar 31ain o Fawrth 2015.

2.2 Roedd adroddiad ar y mater yma wedi ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor AHNE yn mis Mawrth 2015. Bryd hynny trafodwyd y mater a phenderfynnu gwneud nifer o sylwadau ar y Cynllun Adnau. Roedd y sylwadau yn ymwneud â nifer o faterion yn y penodau â ganlyn:

- Cymunedau Diogel, Iach, Nodedig a Bywiog
- Byw'n Gynaliadwy
- Economi ac Adfywio
- Cyflenwad ag Ansawdd Tai
- Amgylchedd Naturiol ac Adeiliedig

2.3 Cafodd yr holl sylwadau a wnaed ar y Cynllun Adnau, yn cynnwys rhai'r Cydbwyllgor Ymgynghorol, eu hystried gan yr Uned Polisi ar y Cyd. Wrth ystyried yr holl wrthwynebiadau yn unigol roedd swyddogion yr Uned Polisi ar y Cyd yn argymell un o dair opsiwn:

- derbyn y sylw a newid rhan o'r Cynllun
- derbyn y sylw yn rhannol a newid rhan o'r Cynllun
- peidio â derbyn y newid a pheidio gwneud unrhyw newid i'r Cynllun.

2.4 Hefyd, yn dilyn ymlaen o hyn fe gyhoeddwyd rhestr o Newidiadau â Ffocws (sef newidiadau roedd yr Uned Bolisi yn ystyried eu gwneud o ganlyniad i'r uchod).

Cynhaliwyd cyfnod o ymgynghori ar y Newidiadau a Ffocws yn Chwefror –Ebrill 2016.

## 3.0 SYLWADAU Y CYDBWYLLGOR YMGYNGHOROL

3.1 Mae'r Atodiad yn cynnwys y manylion am y sylwadau a wnaed gan y Cydbwyllgor ar wahanol rannau o'r Cynllun (cyfanswm o 13 sylw). Hefyd, mae'r Atodiad yn cynnwys sylwadau ag argymhellion swyddogion yr Uned Polisi ar y Cyd. Os yw aelodau yn dymuno fe ellir gweld beth oedd ymateb swyddogion i'r holl sylwadau eraill a dderbyniwyd ar y Cynllun Adnau ar safle we'r Ymchwiliad: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholisïau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol-ar-y-Cyd/Archwiliad-Annibynnol.aspx

## 4.0 ARCHWILIAD ANNIBYNNOL

4.1 Y cam nesaf ym mhroses y Cynllun Datblygu Unedol yw cynnal Archwilad Annibynnol. Mae'r holl fanylion am yr Ymchwiliad, yn cynnwys y papurau cefndir, cofnodion cyfarfodydd, dogfennau ayb ar safle we'r Archwiliad.

4.2 Yn yr Archwiliad Annibynnol bydd 2 Arolygydd anibynnol yn ystyried yr holl wrthwynebiadau sy'n parhau i sefyll (h.y heb eu datrys yn sgil y Newidiadau â Ffocws). Byddent yn ymdrin gyda'r sylwadau trwy drefn ysgrifenedig neu wrandawiad – yn ddibynnol ar ddymuniad y rhai sydd wedi gwneud sylwadau.

4.3 Mae'r Rheolwr Gwasanaeth AHNE wedi mynychu cyfarfod cychwynnol hefo Arolygwyr yr Ymchwiliad oedd yn amlinellu'r drefn, nodi dyddiadau ag ateb cwestiynnau. Pwysleisiwyd bryd hynny fod rhaid i sylwadau mewn gwrandawiad ychwanegu at y wybodaeth wreiddiol ac nad oedd yn bosibl cyflwyno tystiolaeth newydd.

4.4 Yn achos Cydbwyllgor Ymgynghorol yr AHNE gellir felly penderfynnu gadael i'r Arolygwyr ystyried y sylwadau trwy'r drefn ysgrifenedig neu fynychu'r Archwiliad i roi tystiolaeth lafar mewn gwrandawiad. Os yn penderfynnu tystiolaeth mewn gwrandawiad rhaid nodi mai'r Cadeirydd fyddai yn gyfrifol am wneud hynny.

## 5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Penderfynnu ar adael i'r Arolygwyr ddelio hefo sylwadau'r Cydbwyllgor AHNE trwy'r drefn ysgrifenedig neu i'r Cadeirydd gyflwyno'r achos mewn gwrandawiad (yn Medi/ Hydref 2016).

**Sylwadau Cydbwyllgor Ymgynghorol yr AHNE ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd  (Drafft Adnau)**

| Rhif Sylw | Enw | Rhan | Math | Crynodeb o'r Sylw/ Newid(iadau) i'r Cynllun | Sylwadau ac argymhellion Swyddogion |
|---|---|---|---|---|---|
| 943 | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE | POLISI PCYFF2 | Gwrthwynebu | Credir y dylai fod cyfeiriad penodol at ddyluniosafonol sy'n gweddu i'r cyd-destun yn yr AHNE. | **Dim yn derbyn**<br>Mae nodweddion arbennig tirwedd Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn Ardal y Cynllun wedi'u gwarchod o dan Bolisi Strategol PS16 a deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol a amlinellir yn nhabl 23. Fodd bynnag, ystyrir byddai Polisi CYFF3 yn elwa gyda  chyfeiriad at "neu asesiadau manwl eraill sydd wedi eu mabwysiadu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol "er mwyn adlewyrchu cyhoeddiad asesiad o nodweddion a all fod yn benodol i'r AHNE, a fyddai'n ystyriaethau cynllunio materol.<br>**Argymhelliad**<br>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid i bolisi PCYFF2.<br>Diwygio Polisi PCYFF3 fel y cyfeirir uchod.<br>**Newid â Ffocws NF31** |
| 950 | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE | POLISI ADN1 | Gwrthwynebu | Credir y dylid cadw at y polisi presennol (C26) o ddim tyrbinau yn yr AHNE.<br>Hefyd peidio â chaniatáu tyrbeini uwch na 11m o fewn gwelededd yr AHNE.<br>Dylid defnyddio'r term 'tyrbin' yn hytrach na 'melin' sydd yn wahanol.<br>Credir y dylai maen prawf 2 gyfeirio at warchod gosodiad yr AHNE.<br>Mae pryder am y categoriau a dynodi datblygiadau dan 5MW fel rhai 'Bach'. | **Derbyn yn rhannol** – Derbyn y dylid newid y cyfeiriad<br>tuag at felinau gwynt i dyrbinau gwynt.<br>O adolygu'r adroddiad Sensitifrwydd a Chapasiti y Dirwedd gwelir pan meant yn cyfeirio tuag at Dirwedd i'w Warchod rhestrir gosodiad AHNE ac ATA yn ogystal â gosodiad y Parc ac Ardal Treftadaeth y Byd. Yng ngoleuni hyn argymhellir bod geiriad y polisi yn cael ei gywiro trwy ychwanegu cyfeiriad tuag at osodiad AHNE ac ATA ym maen prawf 2 a 3.<br>Mae sail tystiolaeth i'r Cynllun Adnau o fewn astudiaeth 'Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau (2014) yn asesu addasrwydd gwahanol fathau o deipoleg tyrbinau mewn gwahanol ardaloedd yn ardal y Cynllun.<br>Canfyddiadau'r gwaith yma oedd y gellid cefnogi bwriadau raddfa ddomestig (hyd at 15m i'r llafn) yn yr AHNE cy'n belled a bod y meini prawf (i) i (vii) yn cael ei bodloni. Mae'r uchder a ddefnyddir o fewn y |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | polisi yn gyson gyda'r hyn a geir o fewn y Papur Cefndir 'Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau'. Yn y papur testun yma ceir asesiad am addasrwydd gwahanol uchderau o fewn y gwahanol ardaloedd cymeriad tirwedd. Felly mae'r polisi yn adlewyrchu'r sail tystiolaeth yn y papur cefndir a'r gwahanol deipoleg y gellid ei ystyried o fewn ardaloedd cymeriad tirwedd o fewn ardal y Cynllun. Buasai cyflwyno uchderau gwahanol o fewn y polisi yn golygu na fuasai gan y Cynllun sail tystiolaeth gadarn i gyfiawnhau cyfyngu maint datblygiadau o fewn gwahanol is-ardaloedd o fewn ardal y Cynllun.<br>**Argymhelliad**<br>Bod y term tyrbinau gwynt yn cael ei ddefnyddio yn lle melinau gwynt a bod maen prawf 2 a 3 yn cynnwys<br>cyfeiriad i osodiad yr AHNE ac ATA.<br>**Newid a Ffocws NF35, NF36**<br>**Newid Bychan NB5, NB6, NB7** |
| 944 | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE | POLISI ADN2 | Gwrthwynebu | Technoleg Ynni Adnewyddadwy arall. Credir fod y<br>polisi hwn yn rhy benagored o ran cynigion tu<br>allan i ffiniau datblygu a dylid ei gryfhau | **Dim yn derbyn –** credir bod y polisi yn ei ffurf bresennol yn taro cydbwysedd trwy hyrwyddo datblygiadau o fewn ffin datblygu ond yn cefnogi datblygiadau eraill addas pan mae yna gyfiawnhad priodol ar eu cyfer y tu allan i'r ffin datblygu.<br>**Argymhelliad**<br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br>**Dim Newid** |
| 782 | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE | POLISI TWR3 | Cefnogi | Cefnogir y polisi hwn gan y bwriedir gwrthod safloedd<br>newydd ac estyniadau o fewn yr AHNE a'r ATA. Credir fod<br>angen blaenoriaeth i fonitro cydymffurfiaeth hawl cynllunio,<br>amodau cynllunio, amodau tirweddau ac amodau<br>preswyliaeth. | **Nodi'r Sylw Cefnogol**<br>**Argymhelliad**<br>**Dim Newid** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 783 | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE | POLISI TWR4 | Gwrthwynebu | Roedd pryder am ganiatau i safleoedd carafanau<br>sefydlog/sialetau fod yn agored 12 mis y flwyddyn. Heb<br>adnoddau dgonol i ellir monitro'r sefyllfa a mae posibilrwydd<br>o fyw'n barhaol yn yr unedau - heb dalu trethi. | **Dim yn derbyn**<br>Mae canllawiau polisi cenedlaethol yn cefnogi tymor gwyliau drwy gydol y flwyddyn. Mae Polisi TWR4 yn cynnwys meini prawf cadarn er mwyn sicrhau bod y llety yn cael ei ddefnyddio i ddibenion gwyliau yn unig, ac nad yw'n dod yn brif neu'n unig le preswylio'r deilydd.<br>**Argymhelliad**<br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br>**Dim newid** |
| 784 | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE | POLISI TWR5 | Gwrthwynebu | Roedd aeoldau wedi sylw fod cynydd mewn ceisiadau a<br>chryn bwysedd gan y math yma o ddatblygiad yn ardal Llŷn.<br>Gofynwyd os sail i;r polisi ac oedd yna ddadansoddiad o<br>gynydd mewn unedau/effaith datblygiadau newydd wedi ei<br>wneud? Credir y dylia'r polisi fod yn fwy caeth oddi mewn, a gerllaw, yr ardal ddynodedig. Credir fod blaenoriaeth i fonitro cydymffurfiaeth hawl cynllunio, amodau cynllunio,<br>amodau tirweddu ac amodau preswyliaeth. | **Dim yn derbyn**<br>Caiff safleoedd carafanau teithiol eu hystyried yn fwy derbyniol yn nhermau cynllunio defnydd tir,<br>fel rhai sy'n cael llai o effaith ar y tirlun na safleoedd carafanau sefydlog oherwydd, yn ôl eu<br>natur, mae ganddynt nodweddion dros dro nad ydynt golygu effeithiau parhaol, gydol y flwyddyn<br>ar yr amgylchedd lleol. Mae'r cynllun yn cydnabod bod pwysau trwm yn bodoli mewn llawer o gymunedau sydd ar neu ger yr arfordir,<br>yn cynnwys rhannau helaeth o'r ddau AHNE.<br>Bydd y Cynghorau yn gofyn am dystiolaeth gref na fydd ceisiadau ar gyfer unedau pellach mewn ardaloedd o'r fath yn ychwanegu at broblemau gwasanaethu nac yn niweidio cymeriad neu adnoddau naturiol yr ardaloedd hyn.<br>**Argymhelliad**<br>Nid oes angen y newid arfaethedig i sicrhau cadernid y cynllun.<br>**Dim newid** |
| 837 | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE | POLISI STRATEGOL PS15 | Gwrthwynebu | Tai newydd. Roedd pryder am lefel y ddarpariaeth dai yn ardal Llŷn ac effaith posibl hynny ar y gymdeithas a lles yr Iaith Gymraeg.<br>Yn benodol roedd pryder am y ddarpariaeth ym Motwnnog a Phwllheli sydd yn ymddangos yn | **Dim yn derbyn** - Cafodd y strategaeth ddosbarthu ei sefydlu yn y lle cyntaf yn ystod y broses o ddatblygu Hoff Strategaeth y Cynllun ar sail tystiolaeth a chyfranogiad cyhoeddus. Yn nhermau gofodol mae'r strategaeth yn mynd i sicrhau bod polisïau strategol a manwl y Cynllun yn mynd i hyrwyddo datblygiadau sy'n cyfarch disgwyliadau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ormodol o ystyried maint a chymeriad yr aneddleoedd. | Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun. Byddai hefyd yn sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd â disgwyliadau cenedlaethol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Yn hyn o beth, mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhan 9.2) yn dweud bod angen i gynlluniau datblygu ddarparu fframwaith sydd yn sbarduno, tywys a rheoli newid tuag at batrwm mwy cynaliadwy o ddatblygu. Mae angen i awdurdodau cynllunio lleol gael rhwydwaith aneddleoedd sy’n gynaliadwy, sy’n cwrdd â gofynion yr economi, yr amgylchedd ac iechyd wrth Mae’r<br>Cynllun Adnau yn adnabod Coeden o drefi a phentrefi sydd gan rôl a swyddogaeth benodol. Cafodd methodoleg ei ddatblygu a’i gyhoeddi i adnabod yr aneddleoedd ar sail eu rôl, swyddogaeth, ystod a dewis o gyfleusterau a gwasanaethau ym Mhapur Testun 5 Datblygu’r Strategaeth Aneddleoedd. Mae’r iaith Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth lunio’r weledigaeth, amcanion, strategaeth a pholisïau’r Cynllun ers y cychwyn. Fe gafodd effeithiau posib y Cynllun ar yr iaith Gymraeg ystyriaeth yn ystod y broses Asesiad Cynaliadwyedd (sy’n cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol), a gafodd ei oleuo gan Asesiad Effaith Ieithyddol. Dylid rhoi sylw i bolisïau amrywiol y Cynllun a dogfennau testun, yn ogystal â Chanllawiau Cynllunio Atodol am: ymrwymiadau cynllunio, gynnal a chreu cymunedau cynaliadwy, tai fforddiadwy, math a chymysgedd o dai, a briffiau datblygu. Mae’r strategaeth ofodol yn mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy’n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafnidiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddleoedd gyda chymunedau hyfyw.<br>**Argymhelliad**<br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio’r |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br>**Dim newid** |
| 805 | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE | POLISI STRATEGOL PS16 | Gwrthwynebu | Cynllun Rheoli'r AHNE - mae hwn yn gynllun statudol a chredir y dylai fod cyfeiriad ato yn y polisiau perthnasol. | **Derbyn** – Noda paragraff 2.2.4 Polisi Cynllunio Cymru: “Ni ddylid ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol sydd wedi ei osod ym Mholisi Cynllunio Cymru fel polisi mewn CDLlau ond dylai’r cynlluniau esbonio sut y bydd yn berthnasol i’r ardal leol, ac yn hollbwysig sut y bydd polisi cenedlaethol a pholisi lleol yn cydweithio”. At hynny, noda paragraff 2.2.5 Polisi Cynllunio Cymru “Ni ddylai cynlluniau ddyblygu darpariaethau sydd mewn cyfundrefnau deddfwriaethol eraill, er enghraifft, mewn rheoliadau iechyd yr amgylchedd ac adeiladu a deddfwriaeth iechyd a diogelwch.” Amlinellir y ddeddfwriaeth bresennol a’r polisi ac arweiniad cenedlaethol mewn perthynas ag AHNE yn Nhabl 23 y CDLl ar y Cyd. Serch hynny, ystyrir y byddai o fudd i’r Cynllun trwy wneud diwygiadau i’r Cynllun sy’n tynnu sylw i’r Cynlluniau Rheolaeth AHNE priodol wrth ymdrin gyda cheisiadau cynllunio<br>**Argymhelliad**<br>Diwygio paragraff 7.5.13 i gyfeirio at Gynlluniau Rheolaeth AHNE. Yn ogystal cynnwys Polisi ychwanegol sy’n gwneud yn ofynnol i ystyried Cynlluniau Rheolaeth AHNE wrth ymdrin gyda cheisiadau cynllunio.<br>**Newid â ffocws: NF 82 & NF 85** |
| 806 | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE | POLISI STRATEGOL PS16 | Gwrthwynebu | AHNE - nid oed polisi penodol o ran cynnal a gwarchod yr AHNE. Yn hytrach mae polisïau cyffredinol a chyfeiriad at ddeddfwriaeth a pholisi cenedlaethol. Credir fod angen polisi penodol ar gyfer cynnal a chadw'r AHNE, tebyg i Bolisi B8 yn y cynllun presennol. | **Dim yn derbyn** – Mae maen prawf 2 y polisi yn ymdrin gyda datblygiad arfaethedig o fewn AHNE. Yn ychwanegol, mae paragraff 2.2.4 Polisi Cynllunio Cymru: “Ni ddylid ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol sydd wedi ei osod ym Mholisi Cynllunio Cymru fel polisi mewn CDLlau ond dylai’r cynlluniau esbonio sut y bydd yn berthnasol i’r ardal leol, ac yn hollbwysig sut y bydd polisi cenedlaethol a pholisi lleol yn cydweithio”. At hynny, noda paragraff 2.2.5 Polisi Cynllunio Cymru “Ni ddylai cynlluniau ddyblygu darpariaethau sydd mewn |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | cyfundrefnau deddfwriaethol eraill, er enghraifft, mewn rheoliadau iechyd yr amgylchedd ac adeiladu a deddfwriaeth iechyd a diogelwch.” Amlinellir y ddeddfwriaeth bresennol a’r polisi ac arweiniad cenedlaethol mewn perthynas ag AHNE yn Nhabl 23 y CDLl ar y Cyd.<br>**Argymhelliad**<br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio’r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br>**Dim Newid** |
| 808 | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE | POLISI AMG1 | Gwrthwynebu | Mewn rhai mannau mae'r ardal yma (ATA Gorllewin Llyn) yn ffinio gyda'r AHNE ac yn creu gwarchodiad i osodiad yr AHNE. Fodd bynnag, mae rhai rhannau o'r AHNE hen warchodaeth yma. Credir felly dylid cyfeirio at warchod gosodiad yr AHNE yn y polisïau perthnasol. | **Dim yn derbyn –** Cyfeirir at fater a wnaed yn y frawddeg olaf ym mholisi AMG2 sy’n datgan “Bydd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i ddatblygiadau sydd yn effeithio ar gymeriad tirwedd a gosodiad yr AHNE neu’r Parc Cenedlaethol”.<br>Serch hynni nodir bod gwall yn y fersiwn Gymraeg a dylid ychwanegu ‘yn uniongyrchol’ ar ôl “effeithiau” yn frawddeg olaf polisi AMG2 er mwyn fod yn gyson gyda’r fersiwn Saesneg.<br>**Argymhelliad**<br>Dylid cynnwys y geiriau ‘yn uniongyrchol’ ar ôl “effeithiau” yn frawddeg olaf polisi AMG2<br>**Newid Bychan: NB 18** |
| 809 | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE | POLISI AMG2 | Gwrthwynebu | Mae'n bolisi canmoladwy ond braidd yn gymhleth a chredi y gall fod yn anodd ei weithredu. | **Dim yn derbyn -** ystyrir bod ystyr y polisi’n ddigon clir a bod modd ei weithredu.<br>**Argymhelliad**<br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio’r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br>**Dim Newid** |
| 810 | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE | POLISI AMG3 | Gwrthwynebu | Dynodiad lleol yw'r Arfordir Treftadaeth sydd yn dilyn ffin arfordirol yr AHNE i raddau helaeth y Llŷn. Credir y dylai'r polisi adlewyrchu'r dynodiad yn fwy cadarnhaol drwy roi mwy o warchodaeth i'r AT. | **Dim yn derbyn -** ystyrir yr eir i’r afael yn ddigonol â phwysigrwydd yr Arfordir Treftadaeth ym mholisi AMG3 a pharagraff 7.5.17.<br>**Argymhelliad**<br>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio’r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.<br>**Dim Newid** |

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Gorffennaf 13eg 2016 |
| **TEITL** | Datblygiadau Solar |
| **PWRPAS** | Gwybyddu Aelodau |
| **AWDUR** | Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

**1.0 CYFLWYNIAD**

1.1 Cyflwynir yr Adroddiad hon yn dilyn cais gan yr Aelodau yn y cyfarfod o'r Cydbwyllgor a gynhaliwyd ar Dachwedd y 18fed 2015.

1.2 Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol am ddatblygiadau solar, gwybodaeth am geisiadau cynllunio yn ardal Llŷn a'r diweddaraf am y taliadau am gynhyrchu trydan trwy ddull adnewyddol solar.

**2.0 LLEIHAU ALLYRIANNAU CARBON**

2.1 Yn sgil rheoliadau'r yr Undeb Ewropeaidd mae rhwymedigaeth ar Llywodraeth y DU i leihau llygredd aer. Un o'r dulliau mwyaf effeithiol o wneud hynny yw trwy gau pwerdai ynni confensiynol (glo, olew, nwy) a chael mwy o drydan o ffynonellau adnewyddol fel dŵr, gwynt, biomass a solar.

2.2 Mae paneli solar yn defnyddio golau'r haul i greu trydan sy'n adnewyddadwy. Er nad oes cyfnodau maith o haul yn y Deyrnas Unedig mae'r paneli yn effeithiol ac mae eu prisiau wedi gostwng fel mae technoleg wedi gwella a phris cynhyrchu wedi lleihau.

2.3 Er mwy annog pobol a chwmnïau felly i ddatblygu ynni adnewyddol bu i'r llywodraeth sefydlu taliadau o'r enw y "Feed In Tariff" oedd yn cynnig taliadau sefydlog am ynni adnewyddol am gyfnodau maith o amser (20 mlynedd fel arfer). Mae na gynlluniau tebyg mewn llawer o wledydd y byd.

2.4 Daeth y cynllun i rym ym Mhrydain yn 2010 ac roedd yn boblogaidd iawn. O ganlyniad bu twf mewn cwmnïau arbenigol oedd yn cynhyrchu a gosod offer ynni adnewyddol ac yn arbennig tyrbinau gwynt a paneli solar. Bu cynnydd hefyd o ran y technegau eraill – pympiau aer, pympiau tir, biomass ayb.

**3.0 DATBLYGIADAU SOLAR YN LLŶN**

3.1 Fel yn y rhannau eraill o'r DU bu cryn ddiddordeb mewn datblygiadau ynni adnewyddol yn Llŷn. Gwnaed nifer o geisiadau cynllunio am offer solar i mewn leoliadau yn yr AHNE neu yn weddol agos i'r ffin. Yn y blynyddoedd cynnar paneli solar ar dai neu adeiladau amaethyddol oedd gan amlaf ond yn ddiweddar derbyniwyd nifer o geisiadau am ffermydd solar ar dir amaethyddol.

3.2 Mae gan ffermydd solar o'r math yma, sydd dros arwynebedd eithaf eang o dir, y potensial i gael effaith sylweddol ar dirlun ag amgylchedd yr ardal.

3.3 Mae’r Atodiad yn cynnwys gwybodaeth am geisiadau am ddatblygiadau ynni solar yn ardal Llŷn dros y blynyddoedd diwethaf.

**4.0 NEWIDIADAU MEWN TALIADAU**

4.1 Roedd y cynllun grant yn boblogaidd iawn ac roedd y cynllun yn costio yn sylweddol i’r Llywodraeth.

4.2 O ganlyniad i hyn lleihawyd y taliadau i ddatblygiadau ynni adnewyddol, yn cynnwys solar yn Awst 2011, Mawrth 2012, 2013, 2014, 2015 a 2016. Mae’r wybodaeth isod yn dangos sut mae taliadau wedi eu gostwng am ddatblygiadau solar (ceiniog am bob kw):

| | **2010** | **2016** |
|---|---|---|
| Solar PV ar dai – 4kw neu lai | 43.11c | 12-5.73c |
| Solar PV hefo gallu cynhyrchu mwy na 250kw | 35.07c | 5.73c |

4,3 Daeth y cynllun FIT’s i ben yn Ionawr 2016 a daeth cynllun newydd i rym. Mae’r cynllun newydd yn wahanol ac mae’n cynnig taliadau sylweddol is.

**5.0 CYNLLUN RHEOLI’R AHNE**

5.1 Mae datblygiadau ynni adnewyddol wedi ei adnabod yn y Cynllun Rheoli presennol fel un o’r materion all gael effaith sylweddol ar harddwch y tirlun a’r arfordir.

5.2 Ar gyfer yr adolygiad o’r Cynllun mae Ynni Solar wedi ei adnabod fel un o’r pynciau llosg o ran Tirlun ac Arfordir ac mae polisi penodol wedi ei gynnwys ar y mater. Gellir trafod y polisi hwn pan yn ystyried yr adroddiad ar y Cynllun Rheoli.

**6.0 ARGYMHELLIAD**

6.1 Derbyn yr wybodaeth.

## Datblygiadau Solar yn Llŷn 2000-2016

| | Cyfeirnod | Lleoliad | Math | Statws |
|---|---|---|---|---|
| 1 | C00D/0195/39/CR | Goleudy Ynys St Tudwal * | Gosod 6 panel ar y goleudy | Caniatawyd gyda amodau |
| 2 | C03D/0130/42/LL | Bronwylfa, Lon Penrhos, Morfa Nefyn | Gosod paneli solar ar adeilad | Caniatawyd gyda amodau |
| 3 | C08D/0197/30/LL | Ty Newydd Hotel, Aberdaron * | Gosod 3 rhes o baneli solar ar do yr adeilad | Caniatawyd gyda amodau |
| 4 | C08D/0242/39/LL | Swn y Borth, Llanengan * | Cais am osod paneli solar ar y to | Caniatawyd gyda amodau |
| 5 | C08D/0373/30/LL | Cadwgan, Rhiw * | Rhoi paneli solar ar y to | Caniatawyd gyda amodau |
| 6 | C10D/0279/39/LL | Plot 3&4, Cae Arfryn, Mynytho | Gosod paneli solar ar y to | Caniatawyd gyda amodau |
| 7 | C11/0884/42/LL | Bodtacho Ddu, Nefyn | Gosod 41 o baneli solar ar do sied amaethyddol | Caniatawyd gyda amodau |
| 8 | C10D/0460/33/LL | Tancoed, Boduan | Paneli Solar | Caniatawyd gyda amodau |
| 9 | C11/0934/D5/LL | Ceka Works Ltd, Glandon, | Paneli solar ar do adeilad | Caniatawyd gyda amodau |
| 10 | C11/0977/35/LL | Ynysygain Fawr, Cricieth | Gosod 200 o baneli solar ar do sied amaethyddol | Caniatawyd gyda amodau |
| 11 | C11/1091/38/LL | Fferm Crugan, Llanbedrog. | Dymchwel a chodi sied newydd efo paneli solar | Caniatawyd gyda amodau |
| 12 | C11/1044/30/LL | Cwrt, Aberdaron * | Paneli solar ar do sied | Caniatawyd gyda amodau |
| 13 | C11/1122/39/LL | Hendy Farm, Abersoch * | Gosod paneli solar ar y ddaear | *Cais wedi ei wrthod* |
| 14 | C12/0228/30/CR | Ysgubor Ty Bach/Ty Nesa, Ynys Enlli * | Gosod 12 panel solar ar do | *Cais wedi ei wrthod* |
| 15 | C12/0720/42/LL | Ty Mawr, Lon Cae Glas, Edern * | Cais i gadw sied amaethyddol gyda paneli solar | Caniatawyd gyda amodau |
| 16 | C12/1153/42/CR | Amgueddfa Forwrol Nefyn | Paneli solar ar do sied newydd | Caniatawyd gyda amodau |
| 17 | C12/1241/42/R3 | Ysgol Botwnnog. | Paneli solar ar do llechi | *Cais wedi ei wrthod* |
| 18 | C12/1555/30/CR | Goleudy, Ynys Enlli * | Codi paneli solar ar y tir | Caniatawyd gyda amodau |
| 19 | C13/0504/46/LL | 1, Gallt y Felin, Llaniestyn * | Dwy res o baneli solar yn yr ardd | Caniatawyd gyda amodau |
| 20 | C13/0902/45/R3 | Cartref Preswyl Plas Y Don, Pwllheli | Paneli solar ar do adeilad | Caniatawyd gyda amodau |
| 21 | C13/0882/30/LL | Dwyryd, Rhoshirwaun * | Fferm paneli solar ar 0.4ha, 150kw | Caniatawyd gyda amodau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 22 | C13/1018/39/LL | Castellmarch, Abersoch. | Fferm solar 0.14 ha, 200 panel. | Caniatawyd gyda amodau |
| 23 | C14/0885/33/LL | Fferm Tyddyn Cae, Boduan | Fferm paneli solar, 20.2ha, 4.9MW | Caniatawyd gyda amodau |
| 24 | C15/0660/30/LL | Dwyryd, Rhoshirwaun * | Estyniad i fferm solar 0.2ha, 150kw | Caniatawyd gyda amodau |
| 25 | C15/0755/41/LL | Tyddyn Gwyn, Llangybi. | Fferm solar 3.8MW ar 6.9 hectar o dir | Caniatawyd gyda amodau |
| 26 | C15/0759/41/LL | Rhosgyll Fawr, Chwilog. | Fferm solar 5mw ar 9.05 ha | Caniatawyd gyda amodau |
| 27 | C15/1075/34/LL | Erw Wen, Clynnog * | Rhes o baneli solar ar y ddaear | Caniatau gydag amodau |
| 28 | C15/0793/32/LL | Nanhoron, Botwnnog | Fferm solar 4 MW ar 12ha o dir | Caniatawyd gyda amodau |
| 29 | C15/0810/40/LL | Llwyndyrus Farm, Y Ffôr. | Fferm solar ar 4.45 MW 11.6ha | Caniatawyd gyda amodau |

- Yn yr AHNE

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | 13 Gorffennaf 2016 |
| **TEITL** | Cynllun Rheoli'r AHNE |
| **PWRPAS** | Gwybyddu Aelodau |
| **AWDUR** | Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr Wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynir yr adroddiad hon i aelodau'r Cydbwyllgor Ymgynghorol er darparu diweddariad ar y gwaith o ddiweddaru ac adolygu Cynllun Rheoli'r AHNE.

1.2 Yn sgil Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 gosodwyd cyfrifoldeb statudol ar Gyngor Gwynedd, fel Awdurdod perthnasol, i baratoi cynllun rheoli ar gyfer yr AHNE ac i adolygu'r cynllun hwnnw bob 5 mlynedd.

1.3 Mae gan Cydbwyllgor Ymgynghorol yr AHNE hefyd rôl bwysig mewn cynorthwyo i baratoi y Cynllun Rheoli drwy roi sylwadau ac awgrymiadau.

## 2.0 RHAN 1 O'R CYNLLUN RHEOLI

2.1 Mae Rhan 1 o'r Cynllun diwygiedig (ar gyfer 2015-20) yn cynnwys y rhannau canlynol wedi eu cyflwyno i'r Cydbwyllgor am sylwadau yn 2015 :

- **Cyflwyniad**
- **Cyd-destun**
- **Y Dull Ecosystem**
- **Rhinweddau Llŷn**
- **Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol**

## 3.0 RHAN 2

3.1 Yn dilyn hynny mae'r Gwasanaeth AHNE wedi bod yn gweithio ar Ran 2 y Cynllun. Fel y nodwyd yn flaenorol bwriedir newid ychydig ar ddull Rhan 2 ar gyfer y Cynllun hwn gan greu rhannau/ penodau yn delio gyda gwahanol nodweddion (yn hyrtach na gosod popeth gydai'i gilydd mewn un rhan yn y cynllun presennol). Hefyd bydd wybodaeth gefndirol mewn dogfen atodol er gwneud y Cynllun yn haws i'w ddarllen a'i ddilyn.

3.2 Bydd pob pennod yn cynnwys cyflwyniad, dadansoddiad o'r nodweddion arbennig, pynciau llosg a pholisiau. Bwriedir cynnwys lluniau i adlewyrchu materion y cyfeirir atynt.

3.3 Hefyd bydd rhan olaf Rhan 2 yn cynnwys Cynllun Gweithredu, gyda gweithredoedd penodol yr anelir i'w cyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun.

3.4 Mae'r Cynllun diwygiedig wedi ei rannu i 8 pennod canlynol:

- Tirlun ac Arfordir
- Purdeb a Llonyddwch
- Bywyd Gwyllt
- Iaith a Diwylliant
- Pobol a Chymdeithas
- Cynnyrch a Sgiliau
- Amgylchedd Hanesyddol
- Mynediad, Mwynhau a Chyfrannu

3.5 Ar gyfer y cyfarfod hwn cyflwynir y penodau drafft ar y materion canmlynol i sylw aelodau'r Cydbwyllgor Ymgynghorol: **Tirlun ac Arfordir a Mynediad, Mwynhau a Chyfrannu** (Gweler yr Atodiad)

3.6 Bydd y penodau ar y pynciau sydd yn weddill yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Cydbwyllgor yn yr Hydref.

**4.0 ARGYMHELLIAD**

4.1 I ystyried y penodau drafft sydd wedi eu paratoi.

4.2 I awgrymu newidiadau neu welliannau.

## Tirlun ac arfordir

### Cyflwyniad

Barnwyd fod Llŷn yn haeddu cydnabyddiaeth a gwarchodaeth arbennig fel AHNE ar sail tirlun ac arfordir hardd a ffurfiwyd gan amrywiaeth eang o nodweddion. Mae edrychiad tirlun unigryw Llŷn wedi ei greu gan gyfuniad o ddaeareg, llystyfiant a dylanwad dynol dros ganrifoedd o amser. Yn aml mae'r tirlun a'r golygfeydd yn anodd ei hasesu a'u mesur oherwydd bod golygfa yn ddarlun gweledol sy'n undod o nodweddion ac adeiladau, a dyma paham y defnyddir y Rhinweddau Arbennig fel dangosydd o gyflwr y tirlun.

Mae seiliau daearegol a geomorffoleg penrhyn Llŷn yn gymhleth ac amrywiol. Ceir creigiau eithriadol o hen o'r cyfnod Cyn-Gambriaidd, creigiau folcanig mewnwthiol ac ardal eang o greigiau Ordoficaidd. Cafodd gweithgaredd rhewlifol effaith amlwg iawn ar y tirlun gan greu dyddodion o glog glai, llynnoedd, cerlannau a sianelau dŵr. Bu i'r rhewlifiant gario cerrig o ardal y Clyde (Alisa Craig) ac Ardal y Llynnoedd i Lŷn, ac fe welir y rhain yn y drifftiau rhewlifol trwy'r ardal.

Gwneir cyfraniad mawr i harddwch a chymeriad naturiol ardal Llŷn gan yr arfordir. Mae'n arddangos nodweddion naturiol amrywiol a diddorol gan gynnwys clogwyni uchel, ogofau, staciau ac ynysoedd, penrhynau a thraethau tywodlyd gydag enwau amrywiol a diddorol. Oherwydd natur ynysig Penrhyn Llŷn mae'r arfordir yn rhan annatod o'r tirlun. Gwelir yr arfordir a'r môr o bron bob lleoliad ac mae ymadroddion megis "dylanwad y môr", "unlle ymhell o'r môr" yn gyffredin am yr ardal. Hefyd mae'r ynysoedd yn cyfrannu at gymeriad Llŷn, ynysoedd St Tudwal, Ynysoedd y Gwylanod ac yn fwyaf amlwg a phwysig Ynys Enlli.

Oherwydd harddwch yr ardal, a nodweddion arbennig eraill mae Llŷn wedi datblygu yn le poblogaidd gan ymwelwyr. Dechreuodd hyn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg gyda dyfodiad y trên i Bwllheli. Yn raddol newidioedd natur yr ymwelwyr yn yr ugeinfed ganrif fel roedd mwy a mwy yn cael ceir eu hunain ac roedd pobol yn aros mewn tai a gwely a brecwast mewn llawer ardal. Hefyd o'r 1960au ymlaen dechreuodd mwy a mwy ddod gyda carafannau a phebyll. Erbyn heddiw mae twristiaeth yn ddiwydiant mawr yma gan gyflogi llawer a dod ag incwm sylweddol i'r economi. Fodd bynnag, mae sgil effeithiau i'r diwydiant yn sgil carafanau sefydlog a theithiol, ail-gartefi, pwysedd mewn mannau poblogaidd a thraffig trwm mewn rhai mannau.

Mae'r safleoedd daearegol/geomorffolegol pwysicaf wedi eu dynodi yn un ai Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig – sydd yn safleoedd o ddiddordeb a phwysigrwydd cenedlaethol, neu yn Safleoedd Rhanbarthol o o Bwysigrwydd Daearegol a Geomorffoleg ("RIGS"). Mae safleoedd sydd wedi eu dynodi yn cynnwys ogofau, chwareli a ffurfiau tirluniol.

Mae **22 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig** ar sail daeareg neu gyfuniad o ddaeareg a nodweddion eraill oddi mewn yr AHNE, arwynebedd o **1588.12 ha.** Roedd cyflwr y safleoedd hyn yn cael eu hasesu gan y Cyngor Cefn Gwlad wrth baratoi'r Cynllun hwn (gweler safle we CCGC am fwy o wybodaeth).

Mae **3 Safle Ddaearegol o Bwysigrwydd Rhanbarthol** yn yr AHNE, sef Trwyn y Tal (11.00 hectar), Mynydd Carreg (5.29ha) a Phorthdinllaen (5.67 ha). Cofnodir eu cyflwr fel "Ardderchog" gan Grŵp RIGS Gwynedd a Môn (2004)

Dynodwyd **Ardal Cadwraeth Arbennig** Clogwyni Pen Llŷn ar sail natur arbennig y creigiau a'r clogwyni. Mae'n 877.48 ha;

Yn **LANDMAP** mae 14 o safleoedd yn yr AHNE wedi eu nodi fel rhai o bwysigrwydd "eithriadol" (pwysigrwydd rhyngwladol a chenedlaethol) a 4 safle fel rhai o safon "uchel" (pwysigrwydd rhanbarthol neu sirol) o ran Daeareg neu Geomorffoleg**.** Mae mwy o wybodaeth am hyn ar safle we Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Defnyddiwyd yr ardaloedd haen isel hyn fel sail i ddatblygu dosbarthiad haen ganol i ardal Partneriaeth Tirlun Llŷn sy'n cynnwys y cyfan o ardal yr AHNE i'r gorllewin o gadwyn Yr Eifl. Gellir clystyru'r cyfan o weddill ardal Gogledd Llŷn i naill ai Cadwyn Mynyddoedd Yr Eifl - Bwlch Mawr neu i lwyfandir arfordir Trefor - Aberdesach.

Mae rhannau o'r arfordir yn dioddef erydiad naturiol ac mae tir arfordirol wedi ei golli'n gyson yn ystod treiglad amser. Datblygwyd cynlluniau gwarchod yr arfordir sylweddol yn Nefyn, Morfa Nefyn ac Aberdaron. Mae Cynlluniau Rheolaeth y Traethin (Bae Ceredigion ac Arfordir y Gogledd) wedi eu paratoi ar gyfer rhaglennu gwaith rheoli erydiad y dyfodol.

At bwrpas yr Adolygiad fe wnaed arolwg o ffurfiau Daearegol yr AHNE gan gwmni Land Use Consultants. Dangosodd y gwaith yma fod yr holl safleoedd hyn mewn cyflwr boddhaol. Fodd bynnag, o ran rheoli'r safleoedd yn y dyfodol roedd rhai materion yn cael eu hadnabod fe bygythiadau:

- datblygiadau newydd
- gwaredu deunyddiau a gwastraff
- cario deunydd oddi ar wyneb y graig

**Cymeriad y Tirlun**

Mae defnyddio asesiad tirlun proffesiynol yn bwysig i asesu a gwerthfawrogi harddwch naturiol ac fe ellir defnyddio termau disgrifiadol safonol i fapio'r tirlun yn nhermau'r synhwyrau. Sefydlwyd LANDMAP fel proses sy'n ystyried holl ffactorau perthnasol sy'n cyfrannu ar gymeriad tirlun yn ogystal ag asesu effaith penderfyniadau. Hefyd asesir gwybodaeth am ddefnydd tir, strategaethau perthnasol a chanfyddiad cyhoeddus. Datblygwyd y system gan Grŵp Partneriaeth Tirlun Cymru ac mae'r system yn cael ei chydgordio gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru/ Cyfoeth Naturiol Cymru

O ran asesiad gweledol mae LANDMAP yn cymryd y ffactorau canlynol i ystyriaeth: Tirlun, morlun, llystyfiant, patrwm defnydd tir, aneddleoedd. Gyda "canfyddiad" rhoddwyd ystyriaeth i raddfa, ffiniau, lliwiau, amrywiaeth, tawelwch, symudiadau, diogelwch, mannau gweld, blerwch ac ardaloedd o ddylanwad gweledol. Ar sail yr uchod mae ffurfiwyd 10 ardal i Wynedd ac mae'r AHNE yn rhan o ddwy ardal sef Arfordir Gogleddol Llŷn a Gorllewin Llŷn.

Mae ardal Arfordir y Gogledd yn stribyn cul yn ymestyn o Aberdesach i Nefyn ac yn cynnwys Bwlch Mawr, Gyrn Ddu, Gyrn Goch, Yr Eifl, Moel Tŷ Gwyn, Gwylwyr a Garn Boduan. Mae pentrefi Trefor, Llithfaen, Pistyll a thref Nefyn yn yr ardal hon. Gwelir amrywiaeth o lystyfiant yn cynnwys gwelltir, coedlannau conwydd a rhostir asidaidd.

Mae ardal Gorllewin Llŷn yn cynnwys rhan o'r penrhyn i'r gorllewin o'r A497. Yn naturiol

mae'r môr yn cael dylanwad cryf ar gymeriad yr ardal yn ogystal â phatrwm caeau traddodiadol. Mae daeareg yr ardal wedi creu llwyfandir isel gydag ymwthiadau igneaidd yma ac acw megis Garn Fadrun a Mynydd Rhiw ac mae olion rhewlifiant hefyd i'w gweld hyd a lled yr ardal. Mae'r ddaeareg a'r llystyfiant amrywiol wedi creu cynefinoedd pwysig megis rhostiroedd a thiroedd gwlyb.  Mae olion presenoldeb dynol yn amlwg ar dirlun gorllewin Llŷn. Yn fwyaf amlwg mae'r bryngaerau ar Garn Fadrun a Chastell Odo a'r patrymau caeau cynhanesyddol.

Mae dadansoddiad LANDMAP o'r elfen Gweledol a'r Synhwyrol yn cofnodi saith nodwedd neu rinwedd allweddol am benrhyn Llŷn sef:

- Ffurf y penrhyn - ffurf  trwyn eliffant gydag arfordir sy'n gyfuniad o gyfres o faeau a thraethau tywodlyd rhwng penrhynau creigiog;
- Mynyddoedd bychan  – naill ai bryniau crwn caregog neu gopaon serth ynysig;
- Y gwrthgyferbyniad cryf rhwng gwahanol fath o lystyfiant – tir glas cyfoethog, grug ac eithin, tir pori garw, coedwigoedd conifferaidd a thir corsiog;
- Patrymau o gaeau bychain - wedi eu hamgylchynu gan waliau cerrig a/neu gloddiau;
- Ffermdai gwasgaredig a phentrefi chwarelyddol;
- Tawelwch –  dim llygredd sŵn a golau;
- Olion chwareli a thyllu am fwynau –  tomenni gwastraff a hen strwythurau o chwareli a gweithfeydd megis Gyrn Ddu, Yr Eifl, Trwyn Llanbedrog a Mynydd Rhiw.

Mae harddwch naturiol AHNE Llŷn yn cael ei gadarnhau trwy LANDMAP sy'n dangos fod llawer o dirlun yr ardal o safon uchel, yn enwedig gorllewin Llŷn

Mae'r arfordir yn creu argraff gref, a gwelir bod yr aneddleoedd gwasgaredig gorllewin Llŷn yn bwysig a bod patrymau a geir gan derfynau yn parhau.  Mae nifer o safleoedd wedi eu nodi fel rhai o bwysigrwydd "eithriadol" (ardaloedd o bwysigrwydd rhyngwladol a chenedlaethol) a "uchel" (pwysigrwydd rhanbarthol neu sirol) o ran agwedd Gweledol a Synhwyrol. Hefyd mae adroddiad a baratowyd ar sail Landmap yn ymestyn ffin yr AHNE i gynnwys yr holl ardal i'r gorllewin o'r A497. Gweler LANDMAP ar safle we Cyfoeth Naturiol Cymru am wybodaeth lawn.

**<u>Y berthynas rhwng y tir a'r môr</u>**

Mae'r angen i roi sylw i'r berthynas rhwng y tir a'r môr wedi dod yn fwy amlwg yn ddiweddar gyda'r pryder am newid hinsawdd a thymhestledd y môr. Mae darogan y bydd newid hinsawdd yn arwain at ddadmer rhew yr Arctig a chodi lefel y môr a hefyd y bydd tywydd mwy stormus yn creu erydiad mewn mannau. Mae hyn wedi cyfrannu at greu achos dros ddeddfwriaeth newydd sef, y Ddeddf Môr a Mynediad Arfordirol a ddaeth i rym yn 2009. Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith newydd ar gyfer cynllunio a rheoli amgylchedd y môr a'r arfordir mewn modd cynaliadwy gan anelu at greu moroedd a chefnforoedd glân, iach, saff, cynhyrchiol sy'n llawn bioamrywiaeth.

Mae Rheolaeth Integredig o Barthau Arfordirol (ICMZ) yn broses sydd yn rhoi datblygu cynaliadwy ar waith mewn parthau arfordirol.  Mae'n tynnu pawb sy'n ymwneud â chynllunio, rheoli a defnyddio'r arfordir at ei gilydd i sicrhau fod yr arfordir hwnnw'n cael ei reoli mewn dull integredig. Ers 2007 mae Llywodraeth Cymru a budd-ddeiliaid allweddol eraill sy'n perthyn i Bartneriaeth Arfordir a Morol Cymru wedi ymrwymo i arddel yr arfer o Reolaeth Integredig o'r Parth Arfordirol (*Inter Coastal Management Zone* - ICZM) ar gyfer

arfordir Cymru. Ar sail hynny mabwysiadwyd strategaeth arfordirol (ICZM) ar gyfer Cymru o'r enw: Gwneud y Gorau o Arfordir Cymru.

Y weledigaeth ar gyfer arfordir Cymru yn y strategaeth yw bod asedau economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol yr arfordir, a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu, yn cael eu cynnal a'u gwella er budd a mwynhad pobl heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. Ymysg y blaenoriaethau ar hyn o bryd mae sicrhau fod egwyddorion ICMZ yn cael eu derbyn a'u harddel wrth ddatblygu polisi ac arferion, bod gwell system o wneud penderfyniadau ar faterion yn ymwneud â'r tir a'r môr o boptu'r terfyn arfordirol, bod pobl yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd yr asedau arfordirol, a bod gwell system o gasglu tystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau a monitro cynnydd.

O ran rheolaeth o'r draethlin mae arfordir Cymru wedi ei rannu i bedair "cell" neu ardal. Yn Llŷn mae'r arfordir i'r gogledd o Ynys Enlli yn rhan o'r arfordir a ddaw o dan gell Arfordir Llandudno i Ynys Enlli tra bo'r arfordir i'r de-ddwyrain yn rhan o gell arfordirol Bae Ceredigion. Mae Cynlluniau Rheoli wedi eu paratoi ar gyfer yr ardaloedd hyn sy'n canolbwyntio ar reoli'r amddiffynfeydd arfordirol, ymateb i lifogydd ac erydu'r arfordir. Cychwynnwyd adolygu'r Cynlluniau hyn yn 2009.

## Prif Nod

**GWARCHOD A GWELLA CYMERIAD A HARDDWCH TIRLUN AC ARFORDIR AHNE LLŶN TRWY GYNNAL AC ADFER NODWEDDION SY'N GWNEUD YR ARDAL YN ARBENNIG AC UNIGRYW.**

## Nodweddion Arbennig

### Penrhyn a bryniau igneaidd

Penrhyn yn ymestyn allan i'r môr yw Llŷn a does unman yn bell o'r môr. Mae daeareg y Llŷn yn gymhleth ac amrywiol ac yn cynnwys a cregiau cyn-gambraidd sydd filiynnau o flynyddoedd oed sydd wedi rhoi mynnyddoedd, bryniau, dyffrynnoedd ac arfordir unigryw i'r ardal.

Y ddaeareg amrywiol sy'n sail ar gyfer cymeriad unigryw'r tirlun gweledol. Llwyfandir eang yw'r penrhyn gyda nifer o fryniau a mynyddoedd igneaidd yn brigo i'r wyneb - mae'r rhain yn nodwedd amlwg yn nhirlun Llŷn a'r AHNE. Y prif rai ar hyd y gogledd yw Gyrn Goch, Gryn Ddu a Moel Penllechog, Yr Eifl, Gwylwyr, Mynydd Nefyn a Garn Boduan ac yna Anelog ac Uwchmynydd ar frig y Penrhyn. Ar yr ochor ddeheuol ceir Mynydd Rhiw, Mynydd y Graig a Thir y Cwmwd a Foel Gron a Garn Fadrun mwy i mewn i'r tir. Mae nifer o fryniau a moelydd llai hefyd fel Garn Saethon a Foel Gwynus.

Oherwydd ei natur ynysig a phellter o ardaloedd trefol ardal eithaf ymylol yw Llŷn ac i gymharu ag ardaloedd eraill ychydig o ddatblygiad sydd wedi bod yma – yn aml cyfeirir ati fel ardal heb ei difetha.

### Arfordir trawiadol

Mae arfordir arbennig Llŷn yn un o brif nodweddion yr ardal ac yn un o'r prif resymau dros ddynodi'r rdal yn AHNE. Nodweddir rhannau helaeth o'r arfordir gogleddol gan glogwyni

serth a chreigiau geirwon gyda rhai rhannu o ddeunydd gwaddodol. Mae'r deunydd gwaddodol yma wedi ei erydu dros amser ac mae nifer o benrhynau a baeau wedi eu ffurfio a rhoddwyd enwau Cymraeg diddorol iddynt fel Porth Ysgaden, Porth Meudwy, Porth Gwylan a Phorth Colmon. Mae llawer o nodweddion arfordiorol diddorll eraill hefyd fel ogofau, staciau ag ynysoedd bychain, eto hefo llu o enwau Cymraeg haneysddol.

Er bod clogwyni a chreigiau ar yr arfordir deheuol mae yno fwy o draethau tywodlyd eang megis Porth Neigwl, Porth Ceiriad a thraeth Abersoch. Oherwydd natur tywodlyd y traethau yma mae sustem o dwyni tywod wedi datblygu yn ardal Abersoch.

O ganlyniad i natur arbennig yr arfordir a'r ffaith nad oedd llawer o ddatblygiad wedi bod fe ddynodwyd rhan helaeth o arfordir Llŷn (55 milltir/ 88.3 cm) yn Arfordir Treftadaeth yn 1974. Mae'r Arfordir Treftadaeth yn dilyn ffin yr AHNE ar hyd yr arfordir o Aberdesach i Benrhyn Du ar yr arfordir deheuol. Nid yw yn cynnwys y rhan o'r arfordir deheuol rhwng y Penrhyn Du a Charreg y Defaid (sydd yn yr AHNE) ond mae rhan o'r arfordir sydd rhwng Nefyn a Morfa Nefyn wedi ei gynnwys. Yn ychwanegol mae Ynys Enlli ac Ynysoedd Sant Tudwal hefyd wedi eu cynnwys. Er nad yw Arfordir Treftadaeth yn ddynodiad statudol mae yn rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i gyfyngu ar ddatblygiadau arfordirol.

Mae rhannau eang o'r arfordir hefyd wedu ei ddynodi yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn ogystal ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

**Llystyfiant**

Mae'r llystyfiant sy'n lliwio'r tirlun yn creu argraff weledol gref gan ei fod yn creu darlun gweledol amrywiol a lliwgar, sy'n amrywio yn ôl amser y flwyddyn.

Mae rhannau helaeth o'r ardal yn dir amaethyddol wedi ei wella ac mae'r rhan fwyaf ohono yn dir pori. Mae hyn y rhoi tirlun o gaeau o faint amrywiol ac mewn rhai mannau mae patrwm caeau hanesyddol yn goroesi. Mae rhai ardaloedd o dir pori garw yn bodoli hefyd – yn bennaf ar y tiroedd uchel, tiroedd gwylypach mewn dyffrynnoedd ac ar y gelltydd môr. Mae rhai cnydau yn cael eu tyfu hefyd – haidd yn bennaf ond yn ddiweddar mae lleihad sylweddol wedi bod mewn tyfu cnydau ar draul amrywiaeth gweledol a bywyd gwyllt.

Mae'r rhostrioedd yn nodwedd amlwg o lystyfiant yn Llŷn ac mae ardaloedd o rostir iseldir arfordirol ac ucheldir. Mae rhostiroedd yr ucheldir yn arbennig o liwgar ar ddiwedd yr Haf pan mae'r eithin mân a'r grug mewn blodau.

**Terfynnau a phatrwm caeau**

Mae'r patrwm caeau traddodiadol, sy'n dyddio yn ôl i gyfnod Oes y Cerrig mewn rhai mannau, yn gyfuniad o elfennau naturiol a dynol sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r tirlun hardd a welir heddiw.

Mae tirlun Llŷn wedi ei rannu gan derfynnau naturiol (afonydd, coedlannau, mynyddoedd) a rhai wedi eu gwneud gan ddyn. Y terfynau dynol mwyaf cyffredin yn AHNE Llŷn yw'r cloddiau a'r waliau cerrig i rannau'r caeau a bob ochor i'r ffyrdd – sydd wedi eu codi ganoedd os nad filoedd o flynyddoedd yn ôl. Mae rhai gwrychoedd yn creu ffiniau hefyd ac mae'r hol derfynnau mae'r rhain oll yn gynefinoedd bywyd gwyllt gwerthfawr.

**Y Chwareli Ithfaen**

Yn y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd mynd mawr ar gerrig ithfaen fel dunydd adeiladau ac ar gyfer ffyrdd a strydoedd. O ganlyniad datblygwyd nifer o chwareli ithfaen ar ochrau bryniau a mynyddoedd penrhyn Llyn – olion sydd i'w gweld yn glir hyd heddiw. Y prif chwareli oedd Trefor, Nant Gwrtheyrn/ Carreg y Llam a'r Gwylwyr yn Nefyn. Roedd llawer o fan chwareli hefyd fel ar Fynydd Tir y Cwmwd, Gyrn Ddu, Trwyn a Thrwyn Dwmi. Mae'r chwareli wedi gadael eu hoel ar yr ardal ond hefyd maent wedi bod yn gyfrifol am ddatblygu tai yn gartefi i'r gweithywr ac mewn rhai mannau pentrefi cyfan fel yn Pistyll, Trefor a Nant Gwrtheyrn.

**Pentrefi ag adeiladau gwasgaredig**

Mae'r rhannau mwyaf gwledig yr AHNE yn cael ei nodweddu gan dai a bythynnod bychan, ffermydd ac ambell gapel neu eglwys - sydd yn ymdebygu i rannau o dde-orllewin Iwerddon. Eto mae hyn yn rhoi argraff o ardal heb weld llawer o newid ag heb ei difetha – disgrifiadau a ddefnyddir am Llŷn yn aml.

Hefyd mae pentrefi bychan, wedi eu gwasgu i'r tirlun, yn nodweddiadol o'r ardal. Oherwydd eu natur gryno a'r deunyddiau adeiladu traddodiadol maent yn ymdoddi'n naturiol i'r tirlun. Mae nifer o bentrefi bychan yma wedi cadw eu cymeriad yn dda – fel Llanengan, Llangian, Y Rhiw, Clynnog ag Aberdaron ac n cyrfannau at apel, yr ardal.

**<u>Materion Llosg</u>**

**Newid hinsawdd**

Rhagwelir y bydd newid hinsawdd yn creu pwysedd sylweddol ar arfordir Cymru yn y dyfodol. Mae tystiolaeth o effeithiau newid hinsawdd yn awgrymu mae'r tueddiadau disgwyliedig ar Gymru yw cynydd yn y tymheredd, mwy o hafau sych a poeth, gaeafau mwynach a gwlypach hefo glaw trwm[1].

Fe all y tueddiadau hyn arwain at ddau fath o newid dros amser:

- cynnydd yn lefel y môr, nifer a dwyster y stormydd yn arwain at bwysedd ychwanegol yn nhermau erydiad arfordirol a llifogydd mewn ardaloedd lefel isel;
- ymestyn y tymor tyfu gan arwain at ddefnydd gwahanol o dir amaethyddol a phwysau i wneud defnydd o dir amaeth ymylol.

**Erydiad arfordirol**

Mae rhannau o'r arfordir yn dioddef erydiad naturiol ac mae tir arfordirol wedi ei golli'n gyson yn ystod treiglad amser – mae Porth Neigwl, Nefyn - Pistyll ag ardal Trefor yn dioddef o hyn. Datblygwyd cynlluniau gwarchod yr arfordir sylweddol yn Nefyn, Morfa Nefyn ac Aberdaron sydd wedi amharu ar gymeriad naturiol yr arfordir ond oedd yn angenrheidiol i warchod eiddo a phobol. Mae Cynlluniau Rheolaeth y Draethlin (Bae Ceredigion ac Arfordir y Gogledd) wedi eu paratoi ar gyfer rhaglennu gwaith rheoli erydiad yn y dyfodol.

[1] Dyfynnwyd yn Strategaeth Amgylchedd Cymru (2008) op cit.

Mae erydiad yn amharu ar elltydd môr a thraethau a gall fod peryglon gwirioneddol i eiddo a phobol. Hefyd mae rhannau o lwybrau yn cael eu colli gan olygu fod angen ail-sefydlu llwybrau. Mae'n bwysig cadw llygad ar lwybrau ac eiddo a chodi ymwybyddiaeth a chymeryd mesurau i baratoi at erydiad.

**Newidiadau ym myd ffermio**

Mae'r dulliau ffermio wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd ac erbyn hyn mae llawer llai o ffermydd cymysg yn yr ardal. Rhai o ddatblygiadau cysylltiedig yn y diwydiant ffermio yn sydd wedi cael ardrawiad ar y tirlun yn ddiweddar yw:

- Codi siediau o faint sylweddol ar gyfer cadw anifeiliaid dan do dros y gaeaf
- Arbenigo mewn un dull o ffermio – defaid, gwartheg biff neu laeth
- Peiriannau modern llawer mwy – sydd angen adwyon llydan a chaeau mawr
- Arallgyfeirio i ddod ag incwm cyhwanegol e.e carafanau teithiol, pebyll, ynni adnewyddol

Rhaid cydnabod hefyd fod gwaith amgylcheddol da wedi ei wneud ar lawer o ffermydd trwy gynlluniau amaeth- amgylcheddol fel ail-sefydlu cloddiau, trwsio ac ail godi waliau cerrig, adfer adeiladau traddodiadol a phlannu gwrychoedd. Mae mentrau o'r math yma wedi bod o ffudd i'r amgylchedd a'r tirlun lleol.

**Carafannau sefydlog a theithiol**

Mae nifer helaeth o garafannau mewn rhai mannau ar hyd arfordir deheuol Penrhyn Llŷn yn cynnwys ardal Sarn Bach, Bwlchtocyn a'r Warren. Yn sicr mae'r datblygiadau hyn, er yn dod ag incwm i'r ardal, wedi amharu ar harddwch naturiol y tirlun a'r arfordir yn y rhan yma o Lŷn.

Mae polisiau cynllunio cenhedlaethol a lleol diweddar wedi bod yn fwy cyfyngedig o ran carafanau, yn enwedig o ran carafanau sefydlog. Ni chaniater safleoedd newydd a dim ond estyniadau bychan a ganiater fel rhan o gynlluniau uwchraddio safleoedd. Hefyd mae cyfleon i leihau effaith gweledol rhai safleoedd carafanau sefydlog yn yr AHNE trwy gynlluniau tirlunio.

Yn ddiweddar mae cynydd wedi bod mewn datblygu safleoedd ar gyfer carafanau teithiol yn rhan gogleddol Llŷn ac mae cryn ddwyster mewn rhai mannau e.e ardal Aberdaron a Thudweiliog. O ran yr AHNE mae safleoedd bychan, mewn mannau cuddiedig yn medru bod yn dderbyniol ond mae'n bwysig bod amodau tirlunio yn cael eu defnyddio a'u gweithredu.

**Tyrbinau Gwynt**

Yn eu hanfod mae tyrbinau gwynt angen mannau agored a gwyntog er mwyn bod yn effeithiol. Hefyd mae tyrbinau mwy o faint yn fwy effeithiol o ran cynhrychu trydan. Oherwydd hynny maent yn amlwg ar y tirlun ag yn amharu ar gymeriad naturiol a golygfeydd. Nid oes ychwaith fawr o gyfle i gynnwys mesurau i leihau'r effaith trwy dirlunio.

O 2010 ymlaen roedd cymhorthdal wedi ei gynnig gan y Llywodraeth am drydan wedi ei greu o ffynhonellau adnewyddol, yn cynnyws ynni gwynt, yn sgil y "Feed-In Tariff". Yn sgil

hynny roedd diddordeb mawr yn y mentrau hynny gan eu bod yn dod a budd economaidd a lleihau'r defnydd o drydan confensiynnol. Fodd bynnag mae cyfraddau taliadau'r Tariff wedi ei leihau yn arw dros y blynyddoedd nes disgyn i lefel isel iawn yn 2016.

Pan yn adolygu'r Cynllun hwn yn 2015/6 ychydig iawn o dyrbinau gwynt sydd wedi ei caniatau ar benrhyn Llŷn. Mae polisïau y Cynllun Datblygu Unedol a'r Cynllun Rheoli wedi bod yn bwysig iawn o ran rheoli'r datblygiadau yn yr ardal yn ogystal ag astudiaeth sensetifrwydd tirlun gan gwmni Gillespies. Mae'n debygol y bydd y newid yn graddfa'r tariff o 2016 ymlaen yn golygu llai o geisiadau am dyrbeini gwynt.

**Ffermydd Solar**

Eto yn sgil taliadau "Feed in Tariff" gan y Llywodraeth a gychwynodd yn 2010 bu cynydd mewn ceisiadau am baneli solar a hefyd ffermydd solar. Mae'r paneli yn cael eu gosod ar dai, adeiladau allanol a siediau amaethyddol yn eithaf llwyddiannus er eu bod yn amharu ar rai adeiladau traddodiadol.

Mae ffermydd solar wrth gwrs ar raddfa hollol wahanol, gan fod dros arwynebedd o hectarau. Mae'r paneli yn weddol isel ar y tirlun ac efallai bod rhai lleoliadau cuddiedig lle gellir eu lleoli heb effeithio llawer ar dirlun yr ardal. Pan yn adolygu'r cynllun roedd 1 fferm solar yn yr AHNE ei hun (ger Aberdaron) a 5 fferm arall o faint eithaf sylweddol yn weddol agos i'r ffin (Boduan, Llangybi, Chwilog, Nanhoron a Llwyndyrus). Yn dilyn newid graddfa taliadau am yr ynni adnewyddol yn 2016 rhagwelir y bydd nifer y ceisiadau yn lleihau yn sylweddol.

**Tai newydd**

Mae'n naturiol y bydd rhai adeiladau newydd yn cael eu codi ym mhentrefi a chefn gwlad Llŷn yn ystod cyfnod y Cynllun. Tai unigol a godir gan fwyaf ond mae rhai stadau bychain wedi eu codi yn diweddar hefyd er enghraifft ym mhentrefi Abersoch, Llanbedrog a Trefor.

Gall adeiladau newydd fodd bynnag amharu ar dirlun a chymeriad yr ardal os ydynt wedi eu lleoli mewn mannau anaddas a/neu o faint a dyluniad sydd ddim yn gweddu. Felly dylid anelu i sicrhau fod adeiladau newydd gael eu lleoli yn ofalus a gweddu i'w cefndir bod hynny mewn tref, pentref neu bentref gwledig.

Yn ogystal â lleoliad a dyluniad addas mae deunyddiau addas yn bwysig. Cerrig, chwipiad a gwahanol fathau o rendr sydd fwyaf cyffredin yn Llŷn a tho llechi. Yn draddodiadol coed oedd drysau a ffenestri ond mae plastig yn gyffredin erbyn hyn. Ar y cyfan mae dyluniad a deunyddiau traddodiadol yn gweddu yn well na rhai modern yn yr AHNE.

**Addasiadau i adeiladau**

Gall estyniadau ac addasiadau anaddas amharu ar gymeriad adeiladau ac ar harddwch cyffredinol yr ardal. Adeiladau traddodiadol yr ardal – tai fferm, bythynnod, adeiladau amaethyddol, capeli ac eglwysi ayb sydd fwyaf sensetif i addasiadau a estyniadau a dylid anelu at gynnal a gwarchod eu cymeriad. Rhoddir mwy o sylwu i'r mater yma yn yr ardal ar yr Amgylchedd Hanesyddol.

**Adeiladau a safleoedd blêr**

Mae adeiladau blêr a safloedd blêr yn amharu ar y tirlun a chymeriad yr ardal yn gyffredinol. Yn ffodus yma yn Llŷn nid oes llawer o achosion o'r math yma ar hyn o bryd, mae nifer o welliannau wedi bod yn ddiweddar e.e dymchwel hen Westy Plas Pistyll.

Mae'n bosibl y bydd adeiladau neu safleoedd eraill yn datblygu i fod mewn cyflwr blêr yn ystod cyfnod y Cynllun a bryd hynny anelir i gesio gwella'r sefyllfa trwy gysylltu gyda pherchnogion a hysbysu'r adrannau perthnasol o'r Cyngor neu sefydliadau fel Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Materion ffyrdd**

Mae ffyrdd hanesyddol wedi eu gweu i'r tirlun gan ddilyn dyffrynoedd, ffiniau naturiol a llwybrau. Ar y llaw arall mae ffyrdd newydd yn dilyn egwyddorion peirianyddol ac felly yn tueddu i fod yn llydan, sych a gyda gweledëdd da – ond oherwydd hynny nid ydynt yn gweddu cystal i'r tirlun.

Mae gwelliannau i'r A499 wedi cael effaith sylweddol ar dirlun yr AHNE rhwng Llanealhaearn ag Aberdesach. Yn sicr roedd angen gwelliannau i'r ffordd hon ond yn anffodus creuwyd ffordd lydan hefo rhannau hir syth ac ymylon eang. Hefyd collwyd collwyd llawer o nodweddion hanesyddol megis adwyon bychan, cilbyst cerrig, giatiau haearn a stej laeth.

Mae achos tros wella rhai ffyrdd eraill yn yr AHNE – ac yn fwyaf penodol yr A4417 rhwng Nefyn a Llanaelhaearn. Os bydd cyllid i wneud y gwaith hyn mae'n bwysig talu sylw dyladwy i'r AHNE ac chael cynllun da sy'n gwarchod a/neu adfer nodweddion hanesyddol.

Mae pryder hefyd am y cynydd cyson mewn arwyddion ffyrdd sy'n amharu ar natur wledig yr ardal. Comisiynwyd Adroddiad gan y Gwasanaeth AHNE yn 2008 a ddangosodd effaith y cynydd graddol mewn mân welliannu ac arwyddion ffyrdd a chynigiwyd arferion da ar gyfer y dyfodol.

**Cyfathrebu a Thanadeiledd**

Fel pob ardal mae nifer o fastiau ffonau symudol wedi eu codi yn Llŷn ac mae'r gwasanaeth hwn yn bwysig i bobol leol, ymwelwyr a busnesau. Ar y cyfan mae'r rhain wedi eu lleoli yn eithaf gofalus gan osgoi cael ardrawiad amlwg ar y tirlun a'r arfordir. Mae'n bosibl y bydd datblygiadau 4G a diffyg gwasanaeth mewn rhai ardaloedd yn golygu ceisiadau i godi mastiau o'r newydd ond ni ragwelir pwysedd mawr o'r cyfeiriad yma.

Mae na rwydwaith eang o polion a cheblau trydan a ffôn yn yr ardal, fodd bynnag nid oes unrhyw beilonau mawr 132KV yn yr ardal ddynodedig. Mae cyfleon i greu gwelliannau o ran effaith y cyfarpar yma trwy rannau adnoddau a thanddaearu. Bwriedir gweithio hefo Telecom Prydan a SP Manweb i geisio gwireddu cynlluniau o'r fath er bydd tirlun yr AHNE.

**Torri Coed Conwydd**

Yn ddiweddar mae rhai ardaloedd o goed conwydd yn yr AHNE wedi eu torri – enghreifftiau amlwg ydi ochrau Garn Boduan a ger Nant Gwrtheyrn. Er nad yw'r coedwigoedd hyn yn

naturiol i'r ardal mae'n i raddau wedi dod yn rhan o'r tirlun ac mae newid sylweddol pan maent yn cael ei torri. Mae rhai o'r coedwigoedd hyn yn cael eu hail-blannu ac yn ddelfydol byddai yn well pe byddai hynny yn cael ei wneud hefo coed cynhenid.

**Datblygiadau ger ffin yr AHNE**

Penderfynwyd ar ffin i'r AHNE ynghanol 1950au yn dilyn arolygon, barn broffesiynnol ac ymgynghori. Mae'r ffin yn dilyn ffiniau naturiol mewn rhai mannau ac yn anelu i gynnyws yr arfordir a bryniau igneaidd amlwg ond mae rhan helaeth o'r penrhyn heb ei gynnwys er ei fod o werth amgylcheddol uchel. Mae achos cryf dros adolygu ffiniau'r AHNE – ar sail harddwch tirlun, bywyd gwyllt, amgylchedd hanesyddol a diwylliant. Mae'n bwysig hefyd gofalu am yr ardal tu draw i'r ffin oherwydd y gall datblygiadau yma gael effaith negyddol ar osodiad yr ardal a golygfeydd i mewn ac allan.

**Tannau ar y Rhostiroedd**

Mae llosgi rhannau o rhostiroedd yn rhan o'r ffordd draddodiadiol o'u rheoli er cael gwared a gor-dyfiant ac annog twf newydd. Mae'n bwysig fodd bynnag fod llosgi yn cael ei wneud yn ofalus a than reolaeth, ar adegau cywir o'r flwyddyn i atal effaith annerbyniol ar fywyd gwyllt ac rhag ofn i'r tân fynd allan o reolaeth. Mae ymderchion wedi eu gwneud i godi ymwybyddiaeth am y dulliau cywir o losgi trwy brosiectau Cadw'r Lliw yn Llŷn a gan Cyngor Cefn Gwlad Cymru/ Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ar adegau fodd bynnag mae tannau ar y rhostiroedd sydd heb eu cynllunio – wedi eu cychwyn yn anfwriadol neu yn ddamweiniol. Gall tannau o'r math yma greu problemau mawr oherwydd nad ydynt yn cael eu rheoli a bydd effaith sylweddol ar y rhostir a bywyd gwyllt.

## Polisiau

**TP 1** **CYNNAL A GWARCHOD SAFLEOEDD DAEAREGOL A GEOMORFFOLEGOL ALLWEDDOL YN YR AHNE A CHODI YMWYBYDDIAETH O'U PWYSIGRWYDD.**

Mae yna amrywiaeth o wahanol nodweddion daearegol a geomorffolegol diddorol iawn ym Mhen Llŷn. Mae llawer o'r nodwedion yma i'w gweld mewn safloeoedd arfordirol neu lle mae'r graig yn brigo i'r wyneb ar y tiroedd uchel. Mae'r safleoedd pwysicaf wedi eu dynodi fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu Safleoedd Rhanbarthol o Ddiddordeb Daearegol.

Yn y gorffennol mae rhai datblygiadau wedi amharu ar safloedd neu nodweddion pwysig – yn fwyaf amlwg y chwareli ithfaen a mwynau ond mewn gwirionedd nid oes llawer o fygythiad i'r safleoedd hyn erbyn heddiw. Fodd bynnag, anelir i'w gwarchod a chodi ymwybyddiaeth ohonynt.

**TP 2** **CYNNAL CYMERIAD ARBENNIG TIRLUN LLŶN TRWY WRTHSEFYLL DATBLYGIADAU FYDDAI YN AMLWG AR Y TIRLUN AC YN AMHARU AR OLYGFEYDD GAN GYNNYWYS DATBLYGIADAU GER Y FFIN FYDDAI YN AMHARU OLYGFEYDD I MEWN AC ALLAN O'R ARDAL.**

Harddwch y tirlun a'r arfordir a'r golygfeydd gwych sydd yn gysylltiedig â hynny fu yn bennaf gyfrifol am ddynodi rhan o Llŷn yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn 1957.

Llŷn oedd y 3edd ardal drwy y DU gyfan i dderbyn y dynodiad. Mae'n hanfodol felly gwarchod yr harddwch hwnnw rhag unrhyw ddatblgiadau fyddai yn amlwg ar y tirlun ac yn amharu ar olygfeydd.

**TP 3 GWARCHOD ARFORDIR ARBENNIG LLŶN A'R YNYSOEDD TRWY WRTHSEFYLL UNRHYW DATBLYGIADAU NEWYDD ARWYDDOCAOL.**

Penrhyn yn ymestyn i'r môr ydi Llŷn ac mae'r arfordir a dylanwad y môr yn rhan allweddol o gymeriad yr ardal. i raddau helath mae'r arfordir yn ei ffurf naturiol hefo chydig iawn o ôl gwaith dyn – dim ond ychydig chwareli, glanfeydd a rhai adeiladau. Roedd cymeriad naturiol a diddorol yr arfordir hefyd yn rhan o'r rheswm am ddynodiad yr AHNE yn ogystal â'r Arfordir Treftadaeth.

**TP 4 GWARCHOD AC ADFER TERFYNAU HANESYDDOL SYDD YN CYFRANNU AT GYMERIAD A HUNANIAETH LLŶN - SEF CLODDIAU, WALIAU CERRIG A GWRYCHOEDD.**

Mae asesiadau cymeriad tirlun yn cynnwys LANDMAP yn cadarnhau fod ffiniau traddodiadol yn cyfrannu at edrychiad a chymeriad tirlun Pen Llŷn. Bydd y Gwasanaeth AHNE a phartneriaid eraill felly yn anelu i warchod, cynnal a chadw'r cloddiau, waliau cerrig a gwrychoedd presennol a hyrwyddo gwelliannau ac ail-sefydlu ffiniau sydd wedi dirywio. Gall hyn fod trwy wrthwynebu ceisiadau i ddymchwel terfynnau traddodiadol, taliadau uniongyrchol e.e Glastir a hyfforddiant ar ddulliau o gynnal a chadw nodweddion.

**TP 5 HYRWYDDO GWELLIANNAU O RAN SAFLEOEDD AC ADEILADAU BLÊR AC YMWTHIOL YN YR AHNE A GERLLAW.**

Prin ydyw safleoedd ac adeiladau blêr ar hyn o bryd ond mae'r mannau hynny yn amharu ar y tirlun a gorau oll os bydd yn bosibl sicrhau gwelliannau. Pan fydd safleoedd neu adeiladau penodol yn cael eu hadnabod fe all Cyngor Gwynedd a phartneriaid weithredu trwy drafod, cymorthdaliadau neu orfodaeth i geisio datrys y sefyllfa. Hefyd mae cyfleon i dirlunio datblygiadau presennol sy'n ymwthiol e.e safleoedd carafanau ac is-orsafoedd trydan.

**TP 6 ANELU I SICRHAU FOD ADEILADAU NEWYDD YN CAEL EU LLEOLI YN OFALUS AC YN GWEDDU I'R ARDAL AC FOD ADDASIADAU YN GWEDDU I ADEILADAU GWREIDDIOL.**

Mae adeiladau newydd o bob math cael effaith ar y drefwedd neu'r tirlun yn ddibynnol ar eu lleoliad ac mae hynny yn arbennig o bwysig yn achos ardaloedd dynodedig fel AHNE a Paharciau Cenedlaethol. Bydd bob cais i godi adeilad newydd yn grofod mynd trwy'r drefn gynllunio a chydymffurio gyda polisïau cenedlaethol a leol a bydd polisïau'r Cynllun hwn yn rhan o'r ystyriaethau. Nid anelu i atal datblygu adeiladau newydd yn yr AHNE mae'r polisi hwn ond ceisio sicrhau fod pob ymdrech yn cael i wneud i sicrhau fod adeiladau newydd yn gwedu i'w cefndir o ran lleoliad, math, manint a dyluniad.

**TP 7 ANNOG Y CWMNÏAU TRYDAN A THELGYFATHREBU I RANNU CYFARPAR A GOSOD CEBLAU O DAN Y DDAEAR MEWN MANNAU AMLWG YN YR AHNE A GERLLAW.**

Er fod cyfarpar presennol y cwmnïau trydan a thelegyfathrebu wedi eu derbyn fel rhan o'r tirlun i raddau, mae rhai lleoliadau lle mae polion, gwifrau a mastiau ffonau symudol yn amharu ar y tirlun. Mae rhai mannau yn yr ardal lle mae'r holl offer wedi ei osod dan y ddaear (Porthdinllaen a ger Nant Gwrtheyrn yn benodol) wedi profi cymaint o welliant ydi hynny o ran yr olygfa ac felly bydd y Gwasanaeth AHNE a phartneriaid yn cydweithio â'r cwmnïau perthnasol i geisio sicrhau gsod cyfarpar dan y ddaear a rhannu mastiau mewn rhai lleoliadau.

**TP 8 GWRTHSEFYLL DATBLYGIADAU TYRBINAU GWYNT A FFERMYDD YNNI SOLAR FYDDAI YN**

**CAEL EFFAITH ANDWYOL AR EDRYCHIAD A CHYMERIAD TIRLUN NEU ARFORDIR YR AHNE A'I GOSODIAD.**

Yn 2010 cyflwynwyd Tariff taliadau (Feed-in Tariff) gan y Llywodraeth i annog cwmnïau, sefydliadau a'r cyhoedd i gynhyrchu ynni adnewyddol trwy wahanol dulliau yn cynnwys ynni dŵr, solar, gwynt a biomass. Solar a gwynt oedd yn cynnig y potensial mwyaf yn yr ardal hon a bu diddordeb cynyddol yn y mentrau hyn. Fodd bynnag bu lleihad graddol yn y Tariff dros y blynyddoedd, gyda'r gostyngiad mwyaf arwyddocaol yn nechrau 2016.

Gwnaed llawer o geisiadau am baneli solar ar adeiladau ar y cychwyn ond yn ddiweddar – ers 2013 mae nifer o geisiadau am ffermydd solar wedi eu cyflwyno, er dim ond 1 sydd wedi ei chaniatau yn yr AHNE ei hun (ger Aberdaron). Mae ffermydd solar yn defnyddio arwynebedd eithaf eang o dir ac felly mae angen bod yn ofalus i gyfyngu safleoedd i leoliadau cuddiedig lle na fyddent yn amharu ar harddwch tirlun yr ardal.

Derbyniwyd nifer o geisiadau am dyrbinau gwynt yn Llŷn yn sgil y tariff taliadau. Yn sgil polisi pendant yn y Cynllun Datblygu Unedol ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiad yn yr AHNE ei hun, fodd bynnag caniatawyd nifer ar safleoedd gerllaw y ffin a gwrthodwyd nifer o geisiadau hefyd (rhai ar apêl). Rhaid derbyn fod rhai o'r datblygiadau hyn yn ymwthiol ar y tirlun gwledig ac fod angen gofal mawr gyda'r math yma o dechnoleg ynni adnewyddol.

**TP 9** **GWRTHSEFYLL DATBLYGIADAU CARAFANAU NEWYDD, AC ESTYNIADAU I SAFLEOEDD PRESENNOL, MEWN LLEOLIADAU AMLWG AR DIRLUN NEU ARFORDIR YR AHNE A HYRWYDDO TIRLUNIO O SAFLEOEDD PRESSENNOL.**

Mae datblygiadau carafanau yn sicr wedi amharu ar dirlun ac arfordir rhai rhannau o'r AHNE. Datblygiadau hanesyddol o garafanau sefydlog yw nifer o'r rhain yn dyddio yn ôl i'r 1960au fel y Warren a Penrhos.

Yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf mae cynydd cyson wedi bod mewn safloedd newydd ar gyfer carafanau teithiol ac mae'r tueddiad i adael y carafanau ar y safle drwy gydol y tymor yn cynyddu eu heffaith gweledol. Yn ddiweddar mae mwy o geisiadau yn ardal Aberdaron a rhan gogleddol o'r penrhyn. Er mwyn gwarchod harddwch a golygfeydd Llŷn a'r AHNE mae angen cyfyngu safleoedd newydd i fannau cuddiedig ac os yn bosib i gyflwyno tirlunio i guddio safleoedd presennol amlwg.

**TP 10** **GWRTHSEFYLL GWELLIANNAU FFYRDD AC ARWYDDION FYDDAI YN AMHARU AR GYMERIAD GWLEDIG LLŶN A CHEFNOGI ADFER NODWEDDION HANESYDDOL A THYNNU ARWYDDION DI-ANGEN.**

Mae prif ffyrdd sydd heb eu gwella yn rhai hanesyddol sydd yn dilyn ffiniau naturiol – mae cymeriad i'r daith a nodweddion diddorol i'w gweld. Mae achos dros wneud gwelliannau mewn rhai mannau, lle mae'r ffordd yn gul neu droadau cas ond mae angen cynlluniau gwella sensetif mewn ardaloedd dynodedig. Gall gwelliannau olygu colli cymeriad ffyrdd hanesyddol a chyflwyno elfennau modern ffyrdd llydan, ymylon eang, cylchfannau, goleuadau ac arwyddion newydd.

Mae'r ffyrdd bach, neu lonydd bach y wlad, yn bwysig hefyd. Dangosodd Astudiaeth Ffyrdd Gwledig Llŷn a gomisiynwyd gan y Gwasanaeth AHNE yn 2008 fod y ffyrdd gwledig yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i gymeriad yr ardal Llŷn a'r AHNE. Ffyrdd cul troellog rhwng cloddiau llydan neu waliau cerrig a gwrychoedd yw llawer ohonynt ac mae awryddion, cerbiau concrid a marciau ffordd yn elfennau ymwthiol.

**TP 11** **CODI YMWYBYDDIAETH AM GYMERIAD UNIGRYW TIRLUN AC ARFORDIR LLŶN A**

**HYRWYDDO BALCHDER YN YR ARDAL A CHEFNOGAETH TUAG AT GADWRAETH.**

Mae angen pob cymorth posib i ofalu am yr ardal a’r AHNE a gall pobol leol ac ymwelwyr gyfrannu at hyn o beth. Rhaid felly codi ymwybyddiaeth am nodweddion arbennig yr ardal a chreu teimlad o falchder a chefnogaeth i waith cadwriaethol lleol. Mae’r Gwasanaeth AHNE, a phartneriaid yn anelu i ddarparu cyfleon i wybod a deall mwy am nodweddion arbennig yr ardal a chyfleon i gyfrannau trwy waith gwirfoddol a hyfforddiant.

**TP 12 CEFNOGI A HYRWYDDO DULLIAU O REOLI TIRLUN AC ARFORDIR FYDD YN GYMORTH I GYFYNGU AR SGIL-EFFEITHIAU NEWID HINSAWDD AG YMDOPI GYDA NEWID HINSAWDD.**

Mae gwyddonwyr bellach yn eithaf pendant fod newid hinsawdd yn digwydd o ganlyniad i gynnydd mewn lefelau CO2 yn yr amgylchedd a difrod i’r haen oson. Er yn sicr bydd effeithiau yn mwy eithafol mewn rhai mannau bydd effeithiau hyd yn oed ar yr ardal hon yn y dyfodol ac felly ni ddylid di-ystyrru’r mater. Bydd felly angen cefnogi a hyrwyddo mesurau i gyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd a gwybod sut i ymateb i’r heriau sy’n ein hwynebu. Bydd hyn yn cynnwys gwaith ymwchwil, codi ymwybyddiaeth a rhannau ymater da.

# Mynediad, Mwynhau a Chyfrannu

## Cyflwyniad

Mae Penrhyn Llŷn yn lle gwerth chweil i grwydro cefn gwlad ac arfordir gan fwynhau golygfeydd gwych. Mae hefyd yn le i ymlacio, cadw'n heini a gweld byd natur, olion ac adeiladau hanesyddol ac amrywiol nodweddion diddorol eraill. Ond ni ellir mwynhau llawer o beth sydd gan yr ardal i'w gynnig heb allu cyrraedd atynt - ac felly mae'r hawliau mynediad a thir sy'n agored i'r cyhoedd yn bwysig.

Mae hawliau tramwy cyhoeddus yn cynnwys llwybrau cyhoeddus, llwybrau marchogaeth a ffyrdd a chilffyrdd. Y mwyaf niferus o bell ffordd yw'r llwybrau cyhoeddus ac mae llawer yn agored ac mewn cyflwr da - ond mae rhai problemau yn bodoli ac mae sicrhau adnoddau digonol at gynnal a chadw yn sialens. Mae llawer o ffyrdd gwledig yn yr ardal – lonydd bach y wlad fel y'i gelwir – ac mae'r rhain hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer teithio hefo car, bws, beic neu gerdded.

Adnodd arall gwerthfawr o ran mynediad yn Llŷn yw'r tiroedd comin. Er fod y tiroedd hyn mewn perchnogaeth breifat mae mynediad i rannau sylweddol ohonynt fel Tir Mynediad. Mae llawer o'r safleoedd hyn yn dir heb ei drin a'i wella a nifer yn rostiroedd naturiol sydd yn gynefin gwerthfawr i amrywiaeth o fywyd gwyllt.

Yn ychwanegol i'r tiroedd comin mae tiroedd eraill gyda mynediad cyhoeddus cyfyngedig, sef Tir Mynediad, wedi dod i fodolaeth yn sgil Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Yr hen Gyngor Cefn Gwlad Cymru oedd yn arwain ar y broses hon a bu ymarferion i godi ymwybyddiaeth ac ymgynghori fel rhan o'r cofrestru. Gelir cael gwybodaeth am Diroedd Mynediad yn ardal AHNE Llŷn i'w weld ar fapiau AO Graddfa 1:25,000. Gellir cael mwy o wybodaeth am Dir Mynediad ar safle we Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ceir cyfleon mynediad cyhoeddus hefyd ar diroedd ym mherchnogaeth sefydliadau cadwriaethol (mynediad trwy drefniant ymlaen llaw ar rai tiroedd). Y ddau amlwg ym Mhen Llŷn yw'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sydd yn berchen ar nifer o safleoedd, tiroedd arfordirol a ffermydd yn cynnwys traeth Llanbedrog a Phorthdinllaen ac Ymddiriedolaeth Ynys Enlli.

Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am hawliau tramwy yn ogystal ag arwain y gwaith ar y Llwybr Arfordir. Ers 2005 mae llawer o adnoddau wedi eu rhoi i ddatblygu'r Llwybr Arfordir, sydd yn ffurfio rhan o Lwybr Arfordir Cymru, gyda chefnogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae gan Gynghorau Cymuned rôl bwysig i'w chwarae o ran cynnal a chadw llwybrau yn eu hardaloedd tra mae gan dirfeddianwyr hefyd gyfrifoldeb i gadw llwybrau statudol ar agor.

Mae gan Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor ran bwysig i'w chwarae o ran goruchwylio hawliau tramwy a mynediad cyhoeddus. Cynhelir cyfarfodydd cyson o'r Fforwm i drafod gwahanol faterion mynediad ac fe all y Fforwm gyfrannu at weithredu rhai o bolisiau'r Cynllun Rheoli o ran materion mynediad.

Mae'r cyfleon i grwydro yn bwysig er mwyn mwynhau yr ardal, ymweld ag olion hanesyddol a chynefinoedd, gweld amrywiaeth o fywyd gwyllt ac adar a lles iechyd a chadw'n heini. Hefyd mae'n rhan o'r adnodd twristaidd sy'n dod a gwaith ac incwm sylweddol y Llŷn.

Prif Nod y Cynllun Rheoli o ran Mynediad a Mwynhad yw:

| |
|---|
| **GWELLA A HYRWYDDO'R DDARAPARIAETH O HAWLIAU TRAMWY A CHYFLEONMYNEDIAD YN YR ARDAL I HOLL DDEFNYDDWYR A CODI YMWYBYDDIAETH A GWELLA GWERTHFAWROGIAD O NODWEDDION ARBENNIG YR ARDAL A'R BUDDION CYHOEDDUS A GYNIGIR GAN YR AMGYLCHEDD.** |

**<u>Nodweddion Arbennig</u>**

### Llwybrau a Hawliau Tramwy

Mae'r llwybrau a hawliau tramwy yn cynnwys llwybrau cerdded, llwybrau ceffyl/marchogaeth a chilffyrdd. Mae rhwydwaith eang o lwybrau cyhoeddus yn Llŷn er nad yw rhannau sylweddol ohonynt yn cael eu defnyddio yn gyson erbyn hyn. Cyngor Gwynedd sydd yn cadw'r wybodaeth am yr union ffordd mae'r llwybrau yn mynd ar gyfres o fapiau ac ar system gyfrifiadurol.

Mae mynediad at lawer o safleoedd hanesyddol ac olion archeolegol trwy hawliau tramwy. Gellir cerdded i ben nifer o fryniau'r ardal a gweld olion yr hen geyrydd megis Tre'r Ceiri neu weld meini hirion a chromlechi yn ogystal ag olion mwy diweddar y diwydiant mwynau a chwareli ithfaen.

Gellir crwydro a gweld amrywiaeth o fywyd gwyllt arbennig Llŷn gan ddefnyddio hawliau tramwy a hawliau mynediad. Mae cerdded y llwybrau arfordirol yn gyfle gwych i weld ac astudio adar y môr a'r morloi llwyd tra gellir gweld sgwarnogod, adar fferm a chreaduriaid llai yn fwy i'r tir. Hefyd gellir ymweld â chynefinoedd amrywiol yn cynnwys corsydd, tir pori arfordirol a rhostiroedd amrywiol.

Cynhaliwyd asesiad manwl o'r llwybrau cyhoeddus fel rhan o baratoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn 2005. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys arolygu llwybrau i weld os oeddent yn agored, cyflwr y dodrefn ac arwyddion a lefel y defnydd. Ar sail yr arolwg fe osodwyd llwybrau mewn categoriau o ran blaenoriaeth er mwyn rhaglennu gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol.

Mae rhai llwybrau a ffyrdd yn addas ar gyfer rhai yn cael trafferthion symud neu mewn cadair olwyn. Oherwydd diffyg gwybodaeth am fannau addas a gwelliannau fyddai yn bosibl eu gwneud comisiynwyd arolwg gan yr Uned AHNE i edrych ar Gyfleon Mynediad yn 2008. Daeth yr Adroddiad i'r casgliad y byddai modd gwella cyfleusterau a mynediad ar nifer o safleoedd – yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer yr anabl.

Ychydig o lwybrau ceffyl/marchogaeth sydd yn yr AHNE ac mae'n debyg mai'r rheswm tros yw bod llawer yn defnyddio cychod i symud o le i le yn y gorffennol yn hytrach na cheffylau. Mae'r llwybrau ceffyl yn adnodd pwysig acy yn ôl y ddeddfwriaeth mae llwybrau ceffyl hefyd yn agored i feicwyr.

Llwybrau goddefol - sydd yn cael eu defnyddio gan y cyhoedd ond nid ydynt yn llwybr cyhoeddus e.e. at ffynhonnau neu draethau.

Ffyrdd di-ddosbarth - wedi datblygu dros amser ac wedi eu seilio yn wreiddiol ar lwybrau cerdded a llwybrau trol gan ddatblygu yn ffyrdd mynediad pwysig i bentrefi ac ardaloedd Llŷn. Mae cilffyrdd a ffyrdd bychain eraill hefo hawl tramwy hefyd yn cyfrannu at y cyfleon mynediad sy'n bodoli - cyfanswm o 43 ohonynt yn ychydig dros 18 cilomedr o hyd. Unrhyw newid ?

**Llwybr Arfordir Cymru**

Mae llwybrau cyhoeddus yn bwysig ym mhob ardal ond yma yn Llŷn mae'r Llwybr Arfordir yn cynnig golygfeydd trawiadol. Ers rhai blynyddoedd bellach mae Cyngor Gwynedd, Cyfoeth Naturiol Cymru a Phartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru wedi bod yn gweithio ar ddatblygu Llwybr Arfordir Llŷn yn ymestyn ar hyd y Penrhyn. Mae'r llwybr yn defnyddio llwybrau cyhoeddus, ffyrdd bychain, llwybrau goddefol, traethau a thir agored. Bellach, mae'r Llwybr Arfordir bron yn gyfan gwbl ar hyd yr arfordir yn ardal Llŷn yn dilyn sefydlu cysylltiadau arfordirol newydd. Hefyd mae gwaith yn parhau, fel rhan o raglen Mynediad at yr Arfordir, i gael rhai rhannau ychwanegol ar hyd yr arfordir.

Yn bendant mae nifer sylweddol o bobol yn cerdded y Llwybr yr Arfordir yn Llŷn ac mae busnesau yr ardal wedi elwa o'r datblygiad yma. Hyd yn ddiweddar roedd amcangyfrifon yn cael eu gwneud o nifer o gerddwyr ond erbyn hyn mae dyfeisiadau digidol yn cyfrif union nifer o gerddwyr. Yn anffodus, nid oes modd cymharu gyda'r data yn y cynllun blaenorol. Fodd bynnag, mae gennym waelodlin ar gyfer adolygiadau'r dyfodol.

Yn 2014 derbyniodd Cyngor Tref Nefyn arian o Gronfa Cymunedau'r Arfordir i wella rhan o'r Llwybr Arfordir rhwng Nefyn a Morfa Nefyn i'w wneud yn addas ar gyfer pobl sydd ag anableddau a theuluoedd ifanc. Hefyd bydd y prosiect yn ail-sefydlu llwybr hanesyddol 10 milltir rhwng Nefyn a Llanbedrog.

**Cylchdeithiau**

Mae cylchdeithiau yn boblogaidd oherwydd fod amrywiaeth o bethau i'w gweld ar hyd y ffordd a does ddim raid cael cerbyd i fynd yn ôl i'r man cychwyn. Mae'n bosib llunio cylchdeithiau trwy ddilyn mapiau wrth gwrs ond mae elfen o risg y bydd llwybr neu ffordd wedi cau gan orfodi i droi'n ôl.

Yn 2015 bu i Gyngor Gwynedd a nifer o bartneriaid lwyddo i gael cymorthdal o Gronfa Cymunedau'r Arfordir i ddatblygu cylchdeithau newydd hwylus, gyda chysylltiad gyda'r Llwybr Arfordir. Mae nifer o'r lwybrau hyn yn yr AHNE ac maent yn gyfle i ymweld â nifer o safleoedd hanesyddol a natur diddorol. Mae'r cylchdeithiau newydd wedi eu huchraddio yn sgil y prosiect ac wedi eu harwyddo. Gellir cael mwy o fanylion o www.ymweldgaeryri.info

**Tir Mynediad**

Fel y nodwyd rhoddodd Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 hawl mynediad newydd i'r cyhoedd (gyda chyfyngiadau) ar:

- dir agored, sef tir yn cynnwys mynydd-dir, rhostir, gweundir neu dwyndir;
- dir comin (sydd wedi ei gofrestru dan Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1965);

- unrhyw fath o dir arall sydd wedi ei ddynodi'n 'dir mynediad' gan y perchennog.

O ran Hawliau Tramwy bydd y Ddeddf yn gwella'r ddeddfwriaeth bresennol drwy hybu agor mynediad o'r newydd a chael gwared ag ansicrwydd o ran hawliau presennol. Bu Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor yn cyfrannu at y broses o ddiffinio tir gyda mynediad cyhoeddus.

**Tir Comin**

Rhwng 2004 a'r presennol prin fu'r newid o ran arwynebedd tir comin o fewn yr AHNE. Y ffigwr diweddaraf yw 824.5 hectar. Mae 30 safle o dir comin yn Llŷn ac mae'r rhain yn bwysig o ran mynediad cyhoeddus ac fel adnodd ar gyfer hamdden anffurfiol. Rhoddodd y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 hawl mynediad i diroedd comin cofrestredig yn ogystal ag i diroedd agored eraill. Mae tiroedd comin hefyd yn bwysig iawn fel cynefin naturiol a lled naturiol ac oherwydd eu gwerth naturyddol mae nifer o'r tiroedd wedi eu dynodi fel Safloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae nifer o diroedd comin Llŷn ym mherchnogaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Ceir amrywiaeth fawr o ran maint ac mae rhai unedau yn cysylltu gyda'i gilydd i greu arwynebedd sylweddol megis Yr Eifl. Y prif diroedd comin eraill yn Llŷn yw Mynydd Tir y Cwmwd, Mynydd Rhiw, Y Foel Gron, Ynys Enlli, Mynydd Cilan a Phenarfynydd. Gellir cael manylion llawn am berchnogaeth, maint a hawliau pori ayb yn y Gofrestr a gedwir gan Gyngor Gwynedd.

Mae'r tiroedd comin yn adnodd mynediad pwysig iawn yn yr AHNE ac oherwydd hynny mae cryn bwysedd ar rai ohonynt gan weithgareddau hamdden. Yn y gorffennol mae rhai tiroedd comin e.e Rhiw, Mynytho wedi bod yn mynd ar dân yn ystod hafau sych.

**Tir Ymddiriedolaethau**

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn berchen ar lawer o safleoedd a thiroedd yn Mhen Llŷn.
Y prif fannau cyhoeddus yw:

- Pentref a thraeth Porthdinllaen, Morfa Nefyn
- Traeth Porthor, Aberdaron
- Porth Meudwy, Aberdaron
- Porth y Swnt, Aberdaron
- Traeth Llanbedrog

Hefyd mae'r Ymddiriedolaeth yn berchennog ar diroedd a ffermydd arfordirol yn Llŷn yn cynnwys Porth Gwylan, Mynydd y Graig, Penarfynydd. Mae mynediad cyhoeddus i rai o'r tiroedd hyn drwy gytundeb ymlaen llaw.

Ers 1979 mae Ynys Enlli ym mherchnogaeth Ymddiriedolaeth Enlli. Mae'n bosib mynd drosodd i'r Ynys drwy drefniant hefo'r gwasanaeth croesi sydd yn rhedeg o Borth Meudwy. Mae Enlli yn lle arbennig iawn oherwydd ei gysylltiadau hanesyddol, cefndir crefyddol, bywyd gwyllt ac adar môr a natur dawel a phellenig. Lle am brofiad unigryw ac mae nifer cynyddol yn ymweld â'r ynys ag yn aros yno am gyfnodau i gael gorffwys o'r bywyd modern.

Oriel Glyn y Weddw – mae'r Oriel wedi prynu coedlan Allt Goch gerllaw ers rhai blynyddoedd ac

wedi clirio rhai coed ac ail-agor hen lwybrau lle gellir crwydro a chysylltu hefo'r Llwybr Arfodir.

**Traethau**

Mae traethau sydd gyda mynediad atynt yn adnodd mynediad a hamdden pwysig i Lŷn. Maent yn cyfrannu at harddwch gweledol yr ardal ac yn darparu cyfle i fwynhau a hamddena. Ceir amrywiaeth eang o draethau, rhai yn greigiog ac eraill yn dywod mân a cheir twyni tywod mewn rhai mannau. Mae'r traethau tywodlyd megis Llanbedrog, Abersoch, Porth Ceiriad a Phorthdinllaen yn boblogaidd ar gyfer torheulo, ymlacio, ymdrochi a chwaraeon. Ar y llaw arall mae rhai traethau yn fwy caregog a gwyllt ac yn denu cerddwyr, naturiaethwyr a physgotwyr.

Y traethau neu'r glannau sy'n rhoi mynediad at y môr. Mae pysgotwyr a phobol leol yn cadw cychod ar rai traethau fel Trefor, Nefyn, Porth Ysgaden, Porth Meudwy ac Abersoch. Mae llawer yn lansio cychod pleser a badau dŵr personol o'r traethau yma hefyd ac ar adegau mae prysurdeb mawr a pherygl o ddamweiniau. Mae rhai traethau yn boblogaidd ar gyfer hamddena o fath arbennig- er enghraifft mae syrffio yn boblogaidd iawn ym Mhorth Neigwl tra mae deifio yn boblogaidd ym Mhorth Ysgaden.

**Lle i Feicio**

Mae llawer o lonydd gwledig yma yn Llŷn sydd yn addas iawn i feicwyr oherwydd nad oes llawer o draffig arnynt. Gellir dilyn y ffyrdd yma yn glir gyda map AS Graddfa 50,000 neu 25,000. Mae'r Astudiaeth Cyfleon Mynediad (AHNE, 2008) wedi dangos fod cyfleusterau ar gyfer gadael a chloi beiciau ger nifer o draethau'r ardal a bod cyfleon i wella'r ddarpariaeth mewn rhai mannau.

Hyd at 2009 nid oedd unrhyw lwybr beicio penodol yn yr AHNE. Yn sgil gwaith adnewyddu'r A499 o Aberdesach i Llanaelhaearn mae llwybr beic penodol wedi ei ffurfio gan ddefnyddio rhannau o'r hen lôn ac ymyl y ffordd newydd. Mae llwybrau marchogaeth ar gael eu defnyddio gan feicwyr, ond does dim llawer o'r rhain yn Llŷn. Efallai bod cyfle i godi ymwybyddiaeth am hynny a dangos fod cyfleon yn bodoli.

Mae rhwydwaith o deithiau sy'n defnyddio ffyrdd lleol wedi eu datblygu gan Gyngor Gwynedd, Bwrdd Croeso Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru. Cyhoeddwyd pecyn gwybodaeth a gosodwyd arwyddion yn ystod 2004. Mae dwy o'r teithiau hyn yn mynd trwy rannau helaeth o'r AHNE (Taith A - Mynydd yr Ystum, Taith B - Garn Fadrun) ac mae taith arall yn teithio drwy ran o'r AHNE (Taith C - Garn Boduan). Pan yn adolygu'r Cynllun nid oedd llawer o waith hyrwyddo yn cael ei wneud ar y teithiau hyn ac roedd rhai arwyddion ar goll.

Mae'r Ymddiredolaeth Genedlaethol yn hyrwyddo teithiau o Aberdaron i dri o leoliadau cyfagos (Porthor, Mynydd Mawr a Plas yn Rhiw). Mae'r teithiau yn cael eu marchnata ar y wê a thrwy daflen.

**Teithio i'r ardal ac oamgylch**

Y prif ffyrdd i Lŷn ydi'r A499 o gyfeiriad Caernarfon a'r A497 drwy Borthmadog. Mae llawer yn defnyddio ceir i deithio oamgylch yr ardal ac ymweld â gwahanol fannau ond mae problemau traffig ym Mhwllheli a rhai o'r pentrefi yn ystod cyfnodau gwyliau prysur..

Mae Rheilffordd Arfordir y Cambrian yn gyfle i deithio i mewn ac allan o'r ardal hefo trên. Mae'r gwasanaeth yn dilyn yr arfordir i Gyffordd Dyfi neu Fachynlleth gyda cysylltiadau wedyn hefo Aberystwyth neu'r Amwythig a Birmingham. Mae'r trên yn ddull mwy cynaliadwy o deithio a allai helpu i leihau traffig modurol i'r ardal. Ceir manylion llawn am y gwasanaeth a reolir gan gwmni ARRIVA ar y safle we: www.cambrianline.co.uk.

Ym Mhwllheli y mae canolfan fysiau Llŷn gyda bysiau yn gadael i bob ardal. Mae gwasanaeth cyson rhwng y prif ganolfannau megis Porthmadog, Caernarfon, Nefyn ac Abersoch a gwasanaeth lled-gyson rhwng y pentrefi ar y prif ffyrdd. Gellir cael manylion llawn am y gwasanaeth bws ar safle we Cyngor Gwynedd neu trwy www.cymraeg.traveline-cymru.info.

Bws Arfordir - Mae Bws yr Arfordir yn wasanaeth newydd yn Llŷn sy'n rhedeg gwasanaeth rheolaidd rhwng Nefyn, Aberdaron ag Abersoch. Mae'n darparu cyfle da i gerdded rhan o'r Llwybr Arfordir ac yna cael y bws yn ôl neu ymlane i'r ganolfan nesaf. Ceir mwy o fanylion ar safle wê - www.bwsarfordirllyn.co.uk .

## Materion Llosg

### Cynnal llwybrau a hawliau tramwy yn wyneb toriadau ariannol

Un o'r prif bynciau llosg o ran mynediad yw sut i gynnal llwybrau cyhoeddus a hawliau tramwy eraill yn wyneb toriadau sylweddol mewn gwariant cyhoeddus. Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn cynnwys gwybodaeth am holl hawliau tramwy yr ardal ac yn gosod llwybrau mewn gwahanol gategoriau o ran blaenoriaeth. Yn dilyn hynny rhoddwyd pwyslais ar gynnal y llwybrau yng ngategoriau 1,2 a 3 er gwneud y gorau o'r adnoddau cyfyngedig ar gael. Ond dros y blynyddoedd mae cwtogi wedi bod ar y gyllideb a bydd toriadau sylweddol pellach yn 2016-8.

### Rhwystrau ar lwybrau a stoc mewn caeau lle mae hawliau tramwy.

Yn anffodus mae rwystrau ar lwybrau cyhoeddus yn yr AHNE yn eithaf cyffredin ac yn amharu ar allu pobol i gerdded a mwynhau. Gall materion o'r fath fod yn anodd i'w datrys. Gwifrau neu giatiau ar draws llwybrau sydd fwyaf cyffredin ond mewn rhai ardaloedd yn ddiweddar gwelwyd cynydd mewn defnydd o wifrau trydan i reoli pori gerllaw neu ar draws llwybrau cyhoeddus. Mewn achosion o'r fath mae angen codi ymwybyddiaeth ac addysgu perchnogion tir am eu cyfrifoldebau o ran llwybrau.

Mewn rhai achosion mae gwartheg ar diroedd lle ceir llwybrau yn broblem. Mae anegn codi ymwybyddiaeth cerddwyr o beryglon ac i weithio gyda amaethwyr i'w hannog i osgoi rhoi gwartheg a lloi a theirw mewn caeau lle mae llwybrau cyhoeddus.

### Erydiad a thywydd

Mae erydiad arfordirol yn cael effaith sylweddol ar Lwybr yr Arfordir mewn rhai mannau yn Llŷn. Cyfuniad o aefau gwlyb a stormydd sydd yn creu erydiad ac ansefydlogrwydd nifer o fannau hyd yr arfordir. Y rhannau gwaddodol o'r tir sydd yn dioddef fwyaf ac yn ystod 2015 a 2016 mae erydiad sylweddol wedi bod ger Llanbedrog, Porth Neigwl, Nefyn a Morfa Nefyn ac yn ardal

Trefor.

Mewn rhai mannau mae'r Llwybr Arfordir wedi disgyn i'r môr neu wedi ei danselio i'r graddau fod angen ei symud yn fwy i mewn i'r tir. Er mwyn gwneud hyn bydd angen cydweithrediad tirfeddianwyr ac adnoddau i dalu am waith a chyfarpar fel giatiau, gwifrau ac arwyddion.

**Pwysedd ymwelwyr**

Gall gormod o ddefnydd o safleoedd neu lwybrau fod yn niweidiol trwy greu erydiad a thraul. Nid yw hon yn broblem fawr yn yr AHNE ar hyn o bryd ond fe all ddatblygu yn sgil cynydd mewn defnydd.

Mewn rhai mannau yn yr AHNE mae pwysedd yn sgîl parcio ar ochor ffyrdd oherwydd nifer yr ymwelwyr yn ymweld â mannau poblogaidd. Yr enghreifftiau amlycaf yw ger maes parcio cyhoeddus Porth Neigwl, ym Mhorth Ysgaden ac ar ochr y B4417 ar odrau Tre'r Ceiri.

**Cŵn ar lwybrau cyhoeddus**

Yn ôl y ddeddf (…) mae cyfrifoldeb ar berchnogion i gadw eu cŵn dan reolaeth pan yn dilyn hawliau tramwy. Fodd bynnag derbynnir cwynion cyson gan y Cyngor am gŵn yn rhedeg yn rhydd ac yn amharu ar stoc a giatiau yn cael eu gadael ar agor. Mae hyn yn creu drwg deimlad a cholledion mewn rhai achopsion a rhaid codio fod gan ffermwyr hawl i ddifa cŵn sy'n ymosod ar eu stoc.

**Gwrthdaro rhwng defnyddwyr ar draethau ac yn y môr**

Traethau yr ardal yw un o'i phrif atyniadau ac mae rhai o'r traethau yn medru bod yn brysur iawn yn ystod yr Haf. Mae gweithgareddau amrywiol ar draethau – torheulo, chwarae gemau, pysgota, lansio cychod, ayb. Ar adegau prysur mae gwrthdaro rhwng defnyddwyr yn broblem, yn arbennig felly rhwng rhai sydd eisiau lansio cychod – gyda cerbydau neu dractorau - a defnyddwyr eraill y traethau.

Gall gwrthdaro hefyd ddatblygu rhwng rhai sydd yn nofio a mwynhau'r traethau a rhai sy'n defnyddio badau dŵr personol a chychod rasio. Mae Gwasanaeth Morwrol Cyngor Gwynedd yn gweithredu i reoli'r trwy drwyddedu a gosod terfynnau a chadw golwg ar y traethau ond mae sŵn y badau hyn hefyd yn medru tarfu ar eraill. Yn ddiweddar mae prosiect Ecosystemau Morol, sydd wedi esblygu o waith ACA Pen Llŷn a'r Sarnau wedi lansio Côd Morol newydd i roi canllawiau ar sut i barchu amgylchedd a bywyd gwyllt morol a defnyddwyr eraill.

**Diffyg cyfleon i rai grŵpiau**

Er fod darpariaeth dda o gyfleusterau i grwydro a mwynhau yn yr ardal mae prinder o ran adnoddau i rai carfanau:

- Rhai sy'n marchogaeth
- Beicwyr
- Rhai ag anableddau symud

Edrychodd yr Astudiaeth ar Gyfleon Mynediad (2008) ar faterion megis pa mor gyfleus oedd

mynediad ac os gallai pobl anabl gyrraedd at y traeth. Hefyd rhoddwyd sylw i ddarpariaeth ar gyfer beics, meysydd parcio a gwasanaeth bws. Mae'r adroddiad hefyd yn awgrymu gwelliannau i gyfleusterau mewn mannau penodol.

**Traffig**

Yn ystod y cyfnodau gwyliau prysur mae llif y traffig yn drwm trwy dref Pwllheli a phentrefi Abersoch, Llanbedrog, Nefyn, Morfa Nefyn ag Aberdaron. Mae hyn yn amharu ar fywyd a gwaith pobol leol a mwynhad ymwelwyr yn ogystal â chynyddu lefelau llygredd aer. Credir fod angen rhoi ystyriaeth i fesurau i liniaru'r sefyllfa - mesurau fel hyrwyddo ffyrdd amgen i deithio, creu llwybrau beics newydd, edrych ar wella gwella llif y traffig trwy Bwllheli a rheoli parcio.

**Diffyg gwybodaeth o'r dynodiad a buddion amgylcheddol**

Dros y blynyddoedd mae llawer wedi ei wneud i geisio codi ymwybyddiaeth am ddynodiad yr AHNE yn gyffredinol, AHNE Llŷn a gwahanol rinweddau yr ardal. Mae'r Gwasanaeth AHNE wedi cyfrannau erthyglau i'r wasg leol, cynnal sgyrsiau a digwyddiadau, creu safle we a chyhoeddi cylchgrawn blynyddol.

Er hynny, yr agraff a geir yw fod lefelau gwybodaeth ymysg pobol leol ac ymwelwyr yn weddol isel – am y dynodiad ei hun a hefyd am y buddion amgylcheddol (gwasanaethau ecosystem) sy'n cael ei ddarparu. Yn bendant mae lle i weithio i wella hyn a cheisio cael pobol i weld buddion y dynodiad a'r hyn sy'n cael ei ddarparu gan yr amgylchedd naturiol. Yn ychwanegol i hyn credir fod cyfle i bobol gefnogi a chyfrannu yn fwy uniongyrchol trwy waith ymarferol ar brosiectau gan y gwasanaeth AHNE.

## <u>Polisïau</u>

**MP 1. CYNNAL, GWARCHOD A HYRWYDDO HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS ALLWEDDOL YR ARDAL A SICRHAU EU BOD AR GAEL I'W DEFNYDDIO YN DDI-RWYSTR.**

Mae hawliau tramwy yn adnodd pwysig i bobol leol ac ymwelwyr i ardal Llŷn i grwydro, mwynhau a chadw'n iach. Bydd y Gwasanaeth AHNE yn annog a chynorthwyo Adran Hawliau Tramwy Gwynedd, Cynghorau Cymuned, tirfeiddiannwyr a sefydliadau fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i i gynnal a chadw hawliau tramwy yn yr ardal. Sylweddolir y bydd hyn yn fwy o sialens i'r dyfodol yn sgil y gwasgu ariannol ar yr Awdurdodau Lleol.

Hefyd bydd y Gwasanaeth AHNE a phartneriaid yn gwrthwynebu unrhyw fwriad i gau, neu osod rhwystrau, ar hawliau tramwy. Mae gwartheg ar diroedd gyda haliau tramwy yn medru achosi pryder i'r cyhoedd ac mae lle i weithio gyda ffermwyr a'r Undebau i godi ymwybyddiaeth am hyn yn ogystal ag addysgu pobol am gau giatiau a rheoli eu cŵn.

**MP 2. HYRWYDDO GWAITH CYNNAL A CHADW AR Y LWYBR ARFORDIR YN YR AHNE A CHREU CYSYLLTIADAU ARFORDIROL NEWYDD .**

Lansiwyd Llwybr Arfordir Cymru yn 2012 ac ers hynny mae nifer o rannau arfordirol newydd wedi eu hychwanegu yn Llŷn, fel ardal Cim Abersoch a Methlem, Llangwnnadl. Mae rhai rhannau eto (Pistyll, Trefor ?) i'w gwneud a bydd y gwasanaeth AHNE yn cefnogi ymdrechion i gynnwys y rhannau ychwanegol hyn. Hefyd cefnogir cynnal a chadw yr holl lwybr a'i hyrwyddo ymysg pobol leol ac ymwelwyr.

Fel y nodwyd wrth drafod y materion llosg mae erydiad ar hyd yr allt fôr yn amharu ar y Llwybr Arfordir mewn rhai mannau. Rhaid derbyn fod hyn yn anorfod yn sgîl natur y tir, gaeafau gwlyb a stormydd. Yr hyn fydd angen ei wneud yw cadw golwg fanwl ar y Llwybr, adnabod problemau yn gynnar a bod yn barod i addasu'r llwybr/ creu rhannau newydd, os bydd raid.

**MP 3. HYRWYDDO'R DEFNYDD O GYLCHDEITHIAU LLEOL SYDD YN GYSYLLTIEDIG GYDA LLWYBR ARFORDIR LLŶN .**

Yn 2015/6 datblygwyd nifer o gylchdeithiau lleol fel rhan o brosiect gan Gyngor Gwynedd a dderbyniodd nawdd gan Gronfa Cymunedau'r Arfordir i greu 18 cylchdaith yn cysylltu hefo Llwybr Arfordir Cymru. Mae nifer o'r teithiau hyn yn Llŷn, ac yn gyfle i weld safleoedd diddorol yn agos i'r arfordir. Bwriedir hyrwyddo'r teithiau hyn gan eu bod yn gyfle i bobol leol ac ymwelwyr gadw'n heini a gweld a dysgu am nodweddion naturiol a dynol diddorol yr un pryd (www.ymweldageryri.info).

**MP 4. GWELLA DARPARIAETH AR GYFER DDEFNYDDWYR, GAN GYNNWYS RHAIN'N MARCHOGAETH BEICWYR A'R ANABL.**

Mae darpariaeth dda o hawliau tramwy a thir mynediad agored ym Mhen Llŷn ond mae prinder cyfleon mynediad ar gyfer rhai'n marchogaeth, beicwyr (llwybrau penodol i feics) a'r anabl. Yn ddiweddar cae prosiect gan Gyngor Tref Nefyn wedi gwella cyfleusterau i'r anabl drwy roi wyneb caled ar lwybr ben yr all rhwng Nefyn a Morfa Nefyn. Anelir i wneud gwelliannau eraill tebyg yn ogystal â gwella cyfleon i rai'n marchogaeth a beicio.

**MP 5. RHEOLI PWYSEDD YMWELWYR MEWN RHAI MANNAU PENODOL YN YR AHNE TRWY FESURAU FEL REOLI NIFEROEDD, AMSERU DIGWYDDIADAU, GWELLA CYFLEUSTERAU AC ADDYSGU'R CYHOEDD**

Mae gormod o bwysedd gan ddefnyddywr ac ymwelwyr yn medru cael effaith negyddol ar safleoedd a lleoliadau yn yr AHNE. Ar hyn o bryd nid yw hon yn broblem fawr yn yr AHNE ond mae yn bodoli mewn rhai mannau fel a nodwyd eisioes. Drwy gwahanol fesurau anelir i reoli a lleihau'r broblem, neu sicrhau nad yw yn datblygu'n broblem.

**MP 6. CEFNOGI RHEOLAETH EFFEITHIOL O DRAETHAU A GLANFEYDD YR ARDAL A'U CYNNAL I SAFON UCHEL.**

Mae rhai o draethau'r ardal yn boblogaidd iawn yn ystod gwyliau ysgol a nifer fawr o bobol yn eu hannau gan wneud gwahanol bethau fel pysgota, torheluo, chwaraeon dŵr ayb. Anelir i hyrwyddo defnydd rhesymol o'r traethau ac osgoi gwrthdaro rhwng y gwahanol ddefnyddwyr.

Mae'n bwysig hefyd fod y traethau yn cael eu cynnal yn dda trwy atal gollwng sbwriel, rheoli cŵn ac atal pobol rhag gyrru moduron ar y traethau heblaw i lansio dan oruchwyliaeth.

**MP 7. HYRWYDDO DULLIAU CYNALIADWY O DEITHIO I'R ARDAL AC YN YR ARDAL.**

Gall hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio i'r ardal ac o gwmpas yr ardal fod yn llesol mewn sawl ffordd. Gall fod yn help i leihau tagfeydd traffig ym Mhwllheli a rhai o bentrefi'r ardal, yn fodd i bobol gadw yn fwy heini wrth gerdded neu feicio a hefyd yn fodd o leihau llygredd awyr. Bydd y Gwasanaeth AHNE felly yn hyrwyddo beicio, cerdded a defnyddio bwsiau a Rheilffordd y Cambrian.

**MP 8. CODI YMWYBYDDIAETH A CYNYDDU GWERTHFAWROGIAD O DDYNODIAD YR AHNE, RHINWEDDAU ARBENNIG YR ARDAL A DARPARU CYFLEON I GYFRANNU AT GYNNAL, GWARCHOD A RHEOLI'R AHNE.**

Er fod llawer wedi ei wneud i godi ymwybyddiaeth o'r dynodiad ers sefydlu'r gwasanaeth AHNE yng Nghyngor Gwynedd yn 2003 credir fod mwy i'w wneud. Yn aml nid yw pobol leol ac ymwelwyr yn gwybod fod Llŷn yn un o ddim ond 5 AHNE drwy Gymru gyfan ac fod hyn yn rhoi statws arbennig i'r ardal sydd angen bod yn falch ohono. Gall y dynodiad fod yn gyfle da i fusnesau farchnata eu cynnyrch neu wasanaeth. Hefyd er mwyn ceisio ennyn diddordeb a pherchnogaeth anelir i ddarparu mwy o gyfleon i bobol a phlant gyfrannau at waith yr AHNE, yn cynnwys gwaith gwirfoddol fel gweithio ar brosiectau amgylcheddol.

**MP 9. CODI YMWYBYDDIAETH O'R YSTOD EANG O WASANAETHAU AMGYLCHEDDOL A DIWYLLIANNOL A DDARPERIR GAN YR AHNE A BUDDION Y GWASANAETHAU HYNNY O RAN YR AMGYLCHEDD, IECHYD A LLES.**

Bellach mae mwy a mwy o bwyslais yn cael ei roi ar y buddion mae'r amgylchedd naturiol yn ei ddarparu i gymdeithas – term arall am hyn yw gwasanaethau ecosystem. Mae'r buddion hyn yn cael eu rhannu i bedwar categori:

- Gwasanaethau Darparu – cynnyrch megis bwyd, ffibr a moddion
- Gwasanaethau Rheolaeth – puro dŵr, cynnal safon aer, a rheoli hinsawdd
- Gwasanaethau Diwylliant – lles trwy gysylltu efo natur ac addysg
- Gwasanaethau Cynnal – prosesau sydd eu hangen ar gyfer gwasanaethau eraill megis ffurfio pridd a chylchdroi maeth.

Drwy gydweithio hefo eraill bydd y Gwasanaeth AHNE yn codi ymwybyddiaeth am y buddiannau hyn a'u pwysigrwydd i gymdeithas, y cyfleon sy'n bodioli a'r anegn i'w cynnal a'u gwarchod ar gyfer y dyfodol.